Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad Gwaddol y Chwechedd Senedd

Ebrill 2026

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
X: **@SeneddHinsawdd**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad Gwaddol y Chweched Senedd

Ebrill 2026

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion** ..... **7**

**1. Cyflwyniad** ..... **12**

**2. Rôl, cylch gwaith a blaenoriaethau** ..... **13**

Rôl ..... 13

Cylch gwaith ..... 13

Ein blaenoriaethau ..... 14

Argymhelliad ..... 14

**3. Craffu ar bolisi** ..... **15**

Newid hinsawdd ..... 15

Cymunedau cynaliadwy ..... 19

Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ..... 20

Gwaith dilynol ..... 25

Gwaith craffu cyffredinol ..... 25

Cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau newid hinsawdd ..... 26

Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd ..... 27

Argymhellion ..... 28

**4. Craffu ar gyrff hyd braich a chyrff cynghori Llywodraeth Cymru** ..... **29**

Trafnidiaeth Cymru ..... 29

Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 31

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ..... 31

Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ..... 32

Argymhellion ..... 33

**5. Gwaith craffu deddfwriaethol ..... 34**

Deddfwriaeth sylfaenol ..... 34

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ..... 40

Craffu ar ôl deddfu ..... 41

Argymhellion ..... 42

**6. Craffu ariannol ..... 43**

Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ..... 43

Craffu ariannol yn ein gwaith ehangach ..... 44

Argymhellion ..... 46

**7. Ffyrdd o weithio ..... 47**

Gweithgarwch ymgysylltu ..... 47

Gweithio traws-Seneddol ..... 48

Y berthynas â phwyllgorau seneddol eraill ..... 50

Senedd sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd ..... 50

Argymhellion ..... 51

**Atodiad 1 : Sesiynau tystiolaeth lafar ..... 52**

**Atodiad 2 : Ymchwiliadau polisi ..... 54**

**Atodiad 3 : Craffu ar Filiau ..... 55**

**Atodiad 4 : Craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ..... 56**

**Atodiad 5 : Gweithgareddau ymgysylltu ..... 59**

**Atodiad 6 : Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil ..... 61**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae wedi bod yn fraint Cadeirio'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am y pum mlynedd diwethaf. Wrth edrych yn ôl, credaf y gallwn fod yn falch o faint rydym wedi ei gyflawni mewn cyfnod cymharol fyr. Rydym wedi ymgymryd â rhaglen sylweddol o waith ar draws ehangder ein cylch gorchwyl, gan archwilio materion sy'n amrywio o fioamrywiaeth a bysiau i ansawdd dŵr a gwastraff. Er bod ein gwaith wedi ei arwain gan ein blaenoriaethau strategol (newid yn yr hinsawdd, cymunedau cynaliadwy a diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol), rydym hefyd wedi parhau i fod yn ymatebol i faterion a digwyddiadau sy'n dod i'r amlwg. Yn anochel, gyda chylch gwaith mor eang, mae rhai meysydd nad ydym wedi gallu gwneud cyfiawnder llawn â nhw. Wrth edrych ymlaen, rydym yn hyderus y bydd ein pwyllgor olynol yn ystyried hyn wrth bennu ei flaenoriaethau a'i raglen waith yn y Seithfed Senedd.

Mae ein dull craffu wedi bod yn drylwyr ac yn bwyllog. Rydym wedi herio'n gadarn lle bo angen, gan hefyd roi cydnabyddiaeth lle'r oedd hynny'n ddyledus. Wrth fyfyrio ar waith, mae ein hallbynnau wedi bod yn ystyriol ac yn adeiladol, ac mae ein hargymhellion wedi bod yn gymesur ac yn bwrpasol. Ein nod fu helpu i lunio polisi ar gyfer y dyfodol ac i bwyso am gynnydd wrth weithredu a chyflawni polisi presennol. Rwyf o'r farn ein bod ni wedi cyflawni'r nod hwnnw. Mae ein gwaith craffu deddfwriaethol, yn arbennig, wedi bod yn effeithiol, gan arwain at newidiadau sylweddol i Ffiliau a fydd yn gwella ansawdd a gwydnwch cyfraith Cymru yn y dyfodol.

Wrth i ni edrych tuag at y Seithfed Senedd, rydym yn ymwybodol o'r heriau sydd o'n blaenau. Mae mynd i'r afael ag argyfyngau deuol natur a newid hinsawdd yn parhau i fod yn her sylweddol a pharhaol, gyda thargedau hanfodol i'w cyrraedd ar ddiwedd y degawd hwn. Bydd y cynnig diwygio dŵr presennol, os bwrir ymlaen â hynny, yn ymgymeriad mawr, sy'n gofyn am gyfraith newydd yng Nghymru. Mae newidiadau mawr i system drafnidiaeth Cymru i fod i gael eu gweithredu, gyda chyflwyno masnachfraint bysiau fesul cam, ochr yn ochr â chamau arfaethedig i ddiwygio'r rheilffyrdd. Ac mae'r angen cynyddol am ddyfodol ynni diogel, cynaliadwy a fforddiadwy yn tynnu sylw at yr angen i gyflymu'r trawsnewid i ynni glân. Rydym yn hyderus y bydd ein pwyllgor olynol yn parhau i graffu'n gryf a phenodol ar y rhain, a'r materion blaenoriaethol eraill a nodir yn yr adroddiad hwn.

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ymgysylltu â'n gwaith yn ystod tymor y Senedd hon. Mae hyn yn cynnwys rhanddeiliaid, sydd wedi darparu

gwybodaeth a mewnwelediad arbenigol, a'r cymunedau a'r unigolion sydd wedi rhannu eu profiadau bywyd gyda ni. Mae eu cyfraniadau wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio a chryfhau ein gwaith craffu.

Yn olaf, hoffwn hefyd ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor, yn gyn-aelodau ac aelodau presennol, am eu gwaith caled a'u hymrwymiad, ac am eu dull adeiladol o weithio ar draws gwahaniaethau gwleidyddol.



**Llyr Gruffydd MS**
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Wrth bennu cylchoedd gwaith pwyllgorau yn y Seithfed Senedd, dylai'r Pwyllgor Busnes anelu at gyfyngu ar nifer y portffolios gweinidogol o fewn cylch gwaith pob pwyllgor, a sicrhau bod cylchoedd gwaith yn hylaw ac yn ymarferol er mwyn galluogi gwaith craffu effeithiol. .................................................. Tudalen 14

**Argymhelliad 2.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried ymgorffori dull cadarn a systematig o gymryd camau dilynol yn ei ffyrdd o weithio. Gellid cyflawni hyn drwy gynnwys gwaith dilynol yng ngwaith cynllunio ymchwiliadau o'r cychwyn cyntaf a sefydlu proses glir a chyson ar gyfer monitro ac adolygu gweithredu'r argymhellion. ........................................................................................................................ Tudalen 28

**Argymhelliad 3.** Er mwyn llywio ei flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd, dylai ein pwyllgor olynol ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Dylai hefyd ystyried adolygu ei flaenoriaethau ar adeg briodol yn nhymor y Senedd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol i faterion sy'n dod i'r amlwg. ........................................................................................................................ Tudalen 28

**Argymhelliad 4.** Wrth benderfynu ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd, dylai ein pwyllgor olynol ystyried ein hawgrymiadau ar gyfer meysydd gwaith blaenoriaeth a nodir ym mharagraff 79. ...................................................................... Tudalen 28

**Argymhelliad 5.** Dylai ein pwyllgor olynol gynnal gwaith craffu cadarn ar Trafnidiaeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y Seithfed Senedd. Dylai hefyd anelu at gynnal perthynas waith adeiladol gyda'r ddau gorff, er mwyn hwyluso ymddiriedaeth gydfuddiannol ac ymgysylltu effeithiol. .................... Tudalen 33

**Argymhelliad 6.** Dylai ein pwyllgor olynol ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn gynnar yn y Seithfed Senedd i geisio eglurhad ar ei chynlluniau ar gyfer dyfodol y Comisiwn Seilwaith, gan gynnwys unrhyw newid arfaethedig i statws, rôl neu gylch gwaith y corff. ........................................................................................................ Tudalen 33

**Argymhelliad 7.** Dylai ein pwyllgor olynol fanteisio'n llawn ar y cyfle i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o benodi aelodau anweithredol a Phrif Weithredwr cyntaf Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. ........................................ Tudalen 33

**Argymhelliad 8.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried mynd ar drywydd y canlynol gyda Phwyllgor Busnes y Seithfed Senedd:

- beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod pwyllgorau'n cael eu hysbysu ymhellach ymlaen llaw o amseriad cyflwyno Biliau,
- y manteision i bwyllgorau o dderbyn copi cyfrinachol o'r Bil drafft a'r Memorandwm Esboniadol er mwyn galluogi ymgynghoriad mwy ystyrlon ar amserlenni craffu arfaethedig,
- sut gellir gwella amserlennu i sicrhau nad yw'n effeithio'n negyddol ar graffu. ........ Tudalen 42

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Pwyllgor Busnes yn y Seithfed Senedd ystyried rhinweddau adolygu'r broses a'r gweithdrefnau ar gyfer craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol gyda'r bwriad o fodloni ei hun eu bod yn addas at y diben........ Tudalen 42

**Argymhelliad 10.** Dylai ein pwyllgor olynol gynnal goruchwyliaeth o weithredu a chyflawni'r ddeddfwriaeth sylfaenol a fu'n destun gwaith craffu gan y pwyllgor hwn yn ystod y Chweched Senedd........ Tudalen 42

**Argymhelliad 11.** Dylai ein pwyllgor olynol gynnwys craffu ôl-ddeddfwriaeth ymhlith ei flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd ac ystyried gwaith cynnar ar Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. ........ Tudalen 42

**Argymhelliad 12.** Yn ogystal â chraffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, dylai ein pwyllgor olynol sicrhau bod gwaith craffu ariannol yn cael ei integreiddio i'w waith ehangach........ Tudalen 46

**Argymhelliad 13.** Dylai ein pwyllgor olynol barhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru i:

- wella'r wybodaeth a ddarperir i ategu gwaith craffu cadarn ac amserol ar gyllidebau drafft, gan gynnwys cynyddu manylder ac eglurder ar wariant a dyraniadau o fewn llinellau yn y gyllideb,
- darparu ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau'r pwyllgor mewn digon o amser er budd y dadleuon ar y gyllideb terfynol. ........ Tudalen 46

**Argymhelliad 14.** Mae'n bosibl y bydd ein pwyllgor olynol yn dymuno archwilio opsiynau ar gyfer cryfhau gwaith traws-bwyllgor wrth graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. ........ Tudalen 46

**Argymhelliad 15.** Dylai ein pwyllgor olynol chwilio am gyfleoedd i:

- ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu i sicrhau bod ystod eang ac amrywiol o safbwyntiau yn llywio ei waith, a hefyd
- cryfhau ei safbwynt allanol drwy ymweliadau, o fewn y capasiti a'r adnoddau sydd ar gael. ........ Tudalen 51


**Argymhelliad 16.** Fe allai ein pwyllgor olynol ddymuno ystyried defnyddio mecanweithiau fel Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil i gael mynediad at arbenigedd academaidd, gan gynnwys ar ddechrau'r Seithfed Senedd wrth ystyried ei flaenoriaethau a datblygu ei raglen waith. ........ Tudalen 51

**Argymhelliad 17.** Dylai ein pwyllgor olynol barhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithio â phwyllgorau eraill y Senedd, yn enwedig ar faterion trawsbynciol lle byddai hyn yn gwella effeithiolrwydd craffu - er enghraifft, newid yn yr hinsawdd. ........ Tudalen 51

**Argymhelliad 18.** Dylai ein pwyllgor olynol ddatblygu a chryfhau ymhellach y cysylltiadau presennol â phwyllgorau seneddol cyfatebol ledled y Deyrnas Unedig a cheisio cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin. ........ Tudalen 51

**Argymhelliad 19.** Dylai ein pwyllgor olynol fyfyrio ar adroddiad ac argymhellion perthnasol y Bwrdd Adolygu Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd wrth gytuno ar ei ffyrdd o weithio. ........ Tudalen 51

## Y Pwyllgor yn y Chweched Senedd



**FAINT O GYFARFODYDD PWYLLGOR FFURFIOL A GYNHALIWYD?**

**104**



**FAINT O DYSTION A RODDODD DYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR?**

**380**




**FAINT O DDIGWYDDIADAU/ YMWELIADAU Â RHANDDEILIAID A GYNHALIWYD?**

**5**



**FAINT O FILIAU A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR?**

**6**



**FAINT O FEMERANDA CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR?**

**29**

**FAINT O ADRODDIADAU A GYNHYRCHWYD?**

**61**

**FAINT O DDADLEUON A GYNHALIWYD?**

**23**

**FAINT O YMHOLIADAU A GYNHALIWYD?**

**16**

**FAINT O YMATEBION I YMGYNGHORIADAU A GAFWYD?**

**579**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gwaith yn ystod y Chweched Senedd. Mae'n tynnu sylw at yr hyn rydym yn ei ystyried yn brif gyflawniadau, a'r gwersi a ddysgwyd wrth gyflawni ein swyddogaeth graffu. Gan ddefnyddio'r profiad hwn, rydym yn gwneud argymhellion ac yn tynnu sylw at feysydd blaenoriaeth posibl ar gyfer ein pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd.

**2.** I lywio ein hadroddiad, cawsom dystiolaeth gan Weinidogion y Cabinet y mae eu cyfrifoldebau yn dod o fewn ein cylch gwaith, a chan gyrff cynghori a chyrff hyd braich perthnasol Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion am y sesiynau uchod i'w cael yn Atodiad 1.

**3.** Oherwydd cyfyngiadau amser, yn anffodus, nid oedd modd i ni ymgysylltu â rhanddeiliaid na'r cyhoedd i lywio ein gwaith gwaddol. Gan hynny, mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli safbwyntiau Aelodau cyfredol y Pwyllgor.

# 2. Rôl, cylch gwaith a blaenoriaethau

## Rôl

**4.** Sefydlwyd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) gan y Chweched Senedd i graffu ar bolisi a deddfwriaeth mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys newid hinsawdd, yr amgylchedd, ynni, cynllunio, trafnidiaeth a chysylltedd.

**5.** Rydym o'r farn bod pwyllgorau sydd â swyddogaeth ddeuol yn cynnig manteision clir. Mae cyfuno craffu ar bolisi a deddfwriaeth yn galluogi Aelodau i ddatblygu arbenigedd ar draws y ddwy swyddogaeth, a gall hynny, yn ei dro, gryfhau ansawdd a dyfnder y craffu. Rydym yn gobeithio y bydd cynnydd mewn capasiti yn y Senedd nesaf yn lleihau'r angen i Aelodau eistedd ar sawl pwyllgor, gan roi'r modd i Aelodau arbenigo, gyda manteision canlyniadol o ran craffu.

**6.** Rhoddodd ein hymchwiliadau i drafnidiaeth bysiau a rheilffyrdd ac adfer natur gyd-destun a mewnwelediad gwerthfawr a wellodd ein gwaith craffu ar Fil Bysiau (Gwasanaethau) (Cymru) a Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Fodd bynnag, mae cydbwyso ein cyfrifoldebau craffu ar bolisi a deddfwriaeth wedi bod yn heriol ar adegau. Mae ein llwyth gwaith deddfwriaethol, yn enwedig yn ail hanner tymor y Senedd hon, wedi cyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer ymholiadau polisi ac ymgysylltu allanol ehangach.

## Cylch gwaith

**7.** Ar ddechrau'r Chweched Senedd, roedd ein cylch gwaith yn cyd-fynd yn fras â phortffolio'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd. Yn dilyn ad-drefnu Cabinet Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024, roedd ein cylch gwaith yn cwmpasu meysydd ar draws pedwar portffolio gweinidogol. Ysgogodd hyn ein cais i'r Pwyllgor Busnes ailystyried cylchoedd gwaith pwyllgorau polisi.[1] Yn dilyn ymgynghori â phwyllgorau eraill, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar newidiadau bach i'n cylch gwaith.[2] Fodd bynnag, arhosodd nifer y portffolios gweinidogol a gwmpesir gan ein cylch gwaith yr un fath. Gostyngodd newid pellach yn rolau'r Cabinet ym mis Medi 2024 y nifer o bedwar i dri.

[1] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes, dyddiedig 19 Mai 2024
[2] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Busnes at y Cadeirydd, dyddiedig 23 Gorffennaf 2024

**8.** Mae craffu ar amrywiaeth eang o bortffolios wedi bod yn heriol, yn enwedig yn ystod rhan olaf tymor y Senedd hon pan fu ein llwyth gwaith deddfwriaethol yn sylweddol.

**9.** Rydym yn cydnabod y bydd cylch gwaith y pwyllgorau yn y Seithfed Senedd yn fater i'w Phwyllgor Busnes. Rydym o'r farn y dylid ystyried sicrhau llinellau clir o atebolrwydd gweinidogol o fewn cylchoedd gwaith y pwyllgorau, gan gadw digon o hyblygrwydd i alluogi craffu trawsbynciol. Gellid cyflawni hyn drwy geisio cyfyngu ar nifer y portffolios gweinidogol o fewn cylch gwaith pob pwyllgor. Fodd bynnag, byddem yn rhybuddio rhag ailgyfansoddi cylchoedd gwaith pwyllgorau yn barhaus mewn ymateb i newidiadau mewn portffolios gweinidogol.

## Ein blaenoriaethau

**10.** Ar ddechrau'r Chweched Senedd, i helpu i lywio ein blaenoriaethau, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus a chyfres o sesiynau tystiolaeth thematig gyda rhanddeiliaid. Wedi hynny, cytunwyd ar dri blaenoriaeth strategol:

- Newid hinsawdd
- Cymunedau cynaliadwy
- Amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol

**11.** Mae'r blaenoriaethau hyn wedi llywio ein gwaith drwy gydol tymor y Senedd hon.

## Argymhelliad

**Argymhelliad 1.** Wrth bennu cylchoedd gwaith pwyllgorau yn y Seithfed Senedd, dylai'r Pwyllgor Busnes anelu at gyfyngu ar nifer y portffolios gweinidogol o fewn cylch gwaith pob pwyllgor, a sicrhau bod cylchoedd gwaith yn hylaw ac yn ymarferol er mwyn galluogi gwaith craffu effeithiol.

# 3. Craffu ar bolisi

**12.** Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn eang ac yn cwmpasu meysydd polisi amrywiol a sylweddol. Wrth ddatblygu ein rhaglen waith ar gyfer y Chweched Senedd, ein nod oedd sicrhau bod ein dewis o ymchwiliadau yn cwmpasu lled ein cylch gwaith. Er ein bod ni wedi cyflawni hyn i ryw raddau, mae ein llwyth gwaith deddfwriaethol sylweddol wedi golygu nad yw rhai meysydd wedi cael y sylw maent yn ei haeddu - er enghraifft, y system gynllunio. Fodd bynnag, rydym wedi defnyddio sesiynau craffu cyffredinol i ganolbwyntio ar faterion sy'n dod i'r amlwg yn y meysydd hynny.

**13.** Yn ogystal ag ymchwiliadau a gynlluniwyd, rydym wedi cwblhau sawl darn o waith mewn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg. Roedd y rhain yn amrywio o sesiynau tystiolaeth untro i ymchwiliadau mwy sylweddol a gynhaliwyd dros sawl wythnos.

**14.** Darperir enghreifftiau o'n hymchwiliadau isod, wedi eu grwpio yn ôl ein tri maes blaenoriaeth. Mae rhestr lawn o'r ymchwiliadau yn **Atodiad 2**.

## Newid hinsawdd

### Datgarboneiddio tai

**15.** Wrth benderfynu ar ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, fe wnaethom gytuno i gynnal ymchwiliad i ddatgarboneiddio stoc tai presennol Cymru. Yn dilyn gwaith cwmpasu, ac wedi ei lywio gan dystiolaeth rhanddeiliaid, cytunwyd i ganolbwyntio ein hymchwiliad ar y sector tai preifat.

**16.** Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2022. Fe wnaethom hefyd gomisiynu'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion i gynnal cyfweliadau manwl gyda landlordiaid preifat a pherchnogion tai i ddeall ymhellach y rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig i ôl-osod eu heiddo gyda mesurau effeithlonrwydd ynni.

**17.** Ar ddechrau tymor yr hydref 2022, fe wnaethom gymryd tystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector rhentu preifat, y sector ariannol, ac arbenigwyr tai.

**18.** Clywsom fod ffocws Llywodraeth Cymru ar y sector tai cymdeithasol yn cael ei ddilyn ar draul y sector preifat, gyda'r olaf yn cael ei ddisgrifio fel 'yr eliffant yn yr

ystafell' yng nghyd-destun cyflawni'r targed sero net. Daeth ein hadroddiad (Chwefror 2023) i'r casgliad a ganlyn:

> *"Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad strategol cryfach i helpu i ysgogi cynnydd yn y sector preifat. Yn absenoldeb strategaeth hirdymor ar gyfer datgarboneiddio tai, a chyda pholisïau a rhaglenni cadarn i gefnogi'r sector i ddatgarboneiddio sydd eto i'w dwyn ymlaen gan Lywodraeth Cymru, mae perchnogion eiddo a diwydiant yn cael trafferth gwybod a ddylid gweithredu, a sut a phryd y gallant chwarae eu rhan orau."*

**19.** Wrth ymateb i'n hadroddiad, nododd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd ei bwriad i ddatblygu map llwybr datgarboneiddio tai preswyl, nad oedd rhanddeiliaid allweddol yn gwybod amdano o'r blaen.

**20.** Ar fater cymorth ariannol ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn y cartref, fe wnaethom bwyso ar Lywodraeth Cymru i gyflymu'r gwaith ar gynllun amnewid Nyth, gan geisio ymrwymiad i sicrhau na fyddai unrhyw fwlch yn y ddarpariaeth yn codi rhwng diwedd y cynllun presennol a lansio ei olynydd.

**21.** Roedd materion allweddol eraill a godwyd yn ein hadroddiad yn cynnwys: pwysigrwydd cyfuno cymhellion cyllidol a safonau rheoleiddio i sbarduno gweithgarwch ôl-osod; a'r angen i dyfu'r gadwyn gyflenwi a mynd i'r afael â phrinder sgiliau.

**22.** Fe wnaethom ddilyn y cynnydd tuag at weithredu ein hargymhellion yn haf 2023 ac eto yng ngwanwyn 2024. Fe wnaethom barhau i ddilyn y maes polisi hwn drwy ein gwaith craffu ehangach.

### Adfer safleoedd glo brig

**23.** Yn nhymor yr haf 2024, fe wnaethom gynnal ymchwiliad i adfer safleoedd glo brig. Cafodd yr ymchwiliad ei sbarduno gan faterion a gododd yn sgil cau'r safle glo brig olaf yng Nghymru, yn Ffos-y-frân ym Merthyr Tudful, yn ystod 2023.

**24.** Wrth gynnal yr ymchwiliad, ein bwriad oedd cael dealltwriaeth ddyfnach o'r darlun adfer yn Ffos-y-frân a mwyngloddiau brig eraill ledled Cymru, er mwyn nodi'r gwersi a ddysgwyd.

**25.** Canolbwynt ein hadroddiad (Awst 2024) oedd yr angen i sicrhau amddiffyniadau priodol i awdurdodau lleol a chymunedau. Fe wnaethom gyfres o

argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys: adolygiad o'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN2) ar gyfer Glo; cyflwyno canllawiau statudol ar asesiadau atebolrwydd adfer; ac adolygiad annibynnol i asesu'r angen am gyllid i adfer safleoedd glo brig i "lefel dderbyniol".

**26.** Ers ein hadroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu Gweithgor Gwaddol Mwyngloddio, gyda chynrychiolaeth rhanddeiliaid, i ategu'r nod strategol hirdymor o sicrhau bod safleoedd etifeddiaeth mwyngloddio, gan gynnwys safleoedd brig, "yn dod yn asedau buddiol i gymunedau, gan gefnogi economïau lleol a'r amgylchedd ehangach".[3]

**27.** Fe wnaethom hefyd alw ar Lywodraeth Cymru i egluro a gorfodi'n llym y polisïau ar echdynnu glo yng nghyd-destun adfer, mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch y potensial i waith adfer tomenni glo arwain at weithrediadau mwyngloddio glo newydd. Fe wnaethom barhau i fynd ar drywydd hyn yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli nas Defnyddir (Cymru). Arweiniodd hyn at ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Glo a Phetrolewm) (Cymru) 2018 fel bod 'datblygu glo' yn cynnwys gweithrediadau sy'n gysylltiedig â thomenni glo nas defnyddir yn benodol. Disgwylir y bydd y cyfarwyddyd diwygiedig yn cael ei gyflwyno cyn diwedd tymor y Senedd hon.

**28.** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd dyfodol Ffos-y-frân wedi ei benderfynu eto ac mae'n parhau i fod yn fater o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol.

### Ymateb i stormydd

**29.** O fewn ychydig wythnosau tua diwedd 2024, cafodd Cymru ei tharo gan stormydd Bert a Darragh. Profodd cymunedau ledled Cymru lifogydd, tirlithriadau a gwyntoedd cryfion. Ym mis Tachwedd 2024, cawsom ohebiaeth gan Andrew RT Davies AS a Heledd Fychan AS, yn galw arnom i gynnal ymchwiliad i ymatebion Llywodraeth Cymru ac asiantaethau perthnasol.[4] Fe wnaeth hyn ein hysgogi i ystyried y fframwaith paratoi ac ymateb i stormydd sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru, gan ddefnyddio Stormydd Bert a Darragh fel astudiaethau achos.

[3] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 2 Chwefror 2026
[4] Llythyr gan Andrew RT Davies AS at Gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 25 Tachwedd 2024 (Saesneg yn unig), a llythyr gan Heledd Fychan AS at Gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 27 Tachwedd 2024 (Saesneg yn unig)

**30.** Yn ystod gwanwyn 2025, fe wnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth gyda chyrff darogan tywydd, awdurdodau cyhoeddus, cyflenwyr ynni a chwmnïau dŵr. Yn ogystal â hynny, cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion raglen ymgysylltu i glywed profiadau unigolion yn y cymunedau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan stormydd Bert a Darragh.

**31.** Roedd themâu allweddol ein hadroddiad (Medi 2025) yn cynnwys: digonolrwydd rhagolygon a rhybuddion; y fframwaith cyfreithiol a strategol ar gyfer ymateb i argyfyngau; cymorth i gymunedau ac unigolion; gwydnwch seilwaith; a chynllunio hirdymor ar gyfer cynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol.

**32.** Wrth archwilio'r fframwaith strategol, fe wnaethom nodi pryder nad yw Fframwaith Ymateb i Lifogydd Llywodraeth Cymru wedi ei ddiweddaru ers 2016, er gwaethaf y cynnydd yn amlder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol. Yn dilyn ein hargymhelliad i adolygu a diwygio'r Fframwaith, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi fersiwn wedi ei diweddaru yng ngwanwyn 2026.

**33.** Ochr yn ochr â'r ystyriaethau hyn ar lefel system, tynnodd ein hymchwiliad sylw hefyd at rôl hanfodol cymunedau. Daeth gwydnwch cymunedol i'r amlwg fel un o'r ffactorau pwysicaf sy'n effeithio ar wydnwch yn erbyn stormydd. Fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i archwilio cyfleoedd i ddarparu cyllid cynaliadwy i grwpiau gwydnwch cymunedol, ac i ymgorffori cyfranogiad cymunedol mewn prosesau cynllunio gwydnwch rhag llifogydd, gan gynnwys drwy fforymau dinasyddion a chynlluniau lleol wedi eu cyd-ddylunio. Mewn ymateb, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid refeniw ychwanegol i gynorthwyo gwaith y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol yng Nghymru.

**34.** Er gwaethaf yr ymateb cymunedol cryf hwn, mae effaith llifogydd ar bobl yn parhau i fod yn bryder sylweddol. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom am yr effaith emosiynol a gafodd llifogydd dro ar ôl tro ar drigolion. Fe wnaethom bwysleisio'r angen i ystyriaethau llesiant gael blaenoriaeth gyfartal i atgyweirio seilwaith ffisegol, gan alw am ymgorffori cymorth iechyd meddwl mewn strategaethau ymateb i lifogydd lleol a'i wneud yn hygyrch drwy wasanaethau a phartneriaethau cymunedol.

**35.** Thema bwysig arall oedd cyflwr ac eglurder y cyfrifoldeb dros seilwaith cwlfertau a draenio. Fe wnaethom alw am ddull cenedlaethol cydlynol o reoli cwlfertau, gan gynnwys canllawiau clir ar gyfrifoldebau dros lannau afonydd ar gyfer tirfeddianwyr, ochr yn ochr ag offer mapio a chymorth i wella cydymffurfiaeth a lleihau anghydfodau.

**36.** Yn olaf, fe wnaethom amlygu atebion sy'n seiliedig ar natur fel elfen allweddol o reoli risg llifogydd yn effeithiol. Fe wnaethom bwyso ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur a sicrhau bod lefelau priodol o gyllid ar gael at y diben hwn. Wedi hynny, fe wnaethom fynd ar drywydd y mater hwn yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

## Cymunedau cynaliadwy

### Dyfodol bysiau a rheilffyrdd

**37.** Rydym wedi craffu'n gyson ar bolisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd. Yn 2022, fe wnaethom gynnal ymchwiliad ar ddyfodol bysiau a rheilffyrdd, a archwiliodd flaenoriaethau ar gyfer adferiad gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd Cymru ar ôl Covid, cynnydd tuag at dargedau newid moddol a chynigion ar ddiwygio bysiau a rheilffyrdd.

**38.** Cafodd ein hymchwiliad ei lywio gan ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Cymerwyd tystiolaeth lafar gan amrywiaeth eang o randdeiliaid a chynhaliwyd digwyddiad i randdeiliaid, lle'r oedd 20 o randdeiliaid yn bresennol yn cwmpasu sawl maes diddordeb, gan gynnwys grwpiau cynrychioli teithwyr o bob cwr o Gymru. Fe wnaethom hefyd gomisiynu'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion i gynnal grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda defnyddwyr gwasanaethau.

**39.** Yn ystod hydref 2023 fe wnaethom gymryd tystiolaeth gan grwpiau teithwyr rheilffordd yn dilyn pryderon a ddygwyd i'n sylw ynghylch darpariaeth rheilffyrdd, perfformiad a phrofiad teithwyr. Llywiodd hyn ein gwaith craffu dilynol a'n hadroddiad ar Trafnidiaeth Cymru.

**40.** Mae'r ymchwiliadau hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer ein gwaith ar ddiwygio bysiau a rheilffyrdd, sef craffu ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Rheilffyrdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fe wnaeth hefyd lywio ein gwaith craffu parhaus ar Trafnidiaeth Cymru.

**41.** Mae disgwyl i newidiadau sylweddol i wasanaethau bysiau a rheilffyrdd yng Nghymru gael eu gweithredu yn y blynyddoedd nesaf. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i barhau i graffu ar y Llywodraeth a Trafnidiaeth Cymru wrth i'r rhain ddod i rym.

### Gwastraff

**42.** Yn ystod tymor yr haf 2024, fe wnaethom gynnal ymchwiliad undydd i wastraff. Diben yr ymchwiliad oedd ystyried y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni strategaeth economi gylchol Llywodraeth Cymru, Mwy nag Ailgylchu (Mawrth 2021), gan gynnwys y targedau ar gyfer 2025. Er mwyn llywio ein gwaith, cymerwyd tystiolaeth gan arbenigwyr polisi, cynrychiolwyr o'r sectorau rheoli gwastraff a busnes, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (Ysgrifennydd y Cabinet).

**43.** Roedd yr ymchwiliad yn eang ei gwmpas, gan gwmpasu: targedau ailgylchu presennol a rhai'r dyfodol; cynnydd tuag at Gynllun Dychwelyd Ernes, trefniadau cyllido Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu; cyflymu camau gweithredu ar ailddefnyddio ac atgyweirio; mynd i'r afael â gwastraff bwyd y gellir ei osgoi; a thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon.

**44.** Fe wnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i nodi barn ar faterion allweddol a godwyd yn ystod yr ymchwiliad.

**45.** Rydym wedi parhau i eiriol dros Gynllun Dychwelyd Ernes, gan bwyso ar Lywodraeth Cymru i egluro ei bwriadau ynghylch cwmpas a dull gweithredu, ac i gyflymu cynnydd tuag at gyflwyno'r cynllun yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2026, gosodwyd Rheoliadau Cynllun Ernes ar gyfer Cynwysyddion Diodydd (Cymru) 2026, gyda dadl wedi ei threfnu ar gyfer diwedd mis Mawrth. Yn amodol ar gymeradwyo'r Rheoliadau, bydd y Cynllun Dychwelyd Ernes yn dechrau o 1 Hydref 2027, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gweddill y Deyrnas Unedig. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i gynnal goruchwyliaeth o weithredu'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn ystod y Seithfed Senedd.

## Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol

### Rheoli amgylchedd morol

**46.** Yn ystod hydref 2021, fe wnaethom gynnal ymchwiliad 'ciplun' i reoli'r amgylchedd morol, a oedd yn ymdrin â: cynllunio morol, ynni adnewyddadwy morol, cydsynio a thrwyddedu, casglu tystiolaeth a bylchau data, Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a charbon glas.

**47.** Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, cynrychiolwyr o'r diwydiant ynni adnewyddadwy ar y môr a chyrff anllywodraethol amgylcheddol.

**48.** Un o themâu allweddol ein hadroddiad (Chwefror 2022) oedd y cwestiwn a oedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn addas at y diben o ystyried y cynnydd tymor canolig disgwyliedig mewn datblygu ynni adnewyddadwy ar y môr. Yn dilyn pryder gan randdeiliaid nad oedd y Cynllun Morol yn cynnwys "elfen ofodol neu bolisïau rheoli datblygu", fe wnaethom argymell y dylid cynnal dadansoddiad allanol o'r Cynllun Morol i lywio'r adolygiad statudol cyntaf o'r cynllun, a oedd i fod i ddigwydd ym mis Tachwedd 2022. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar y dull hwn, ond ar gyfer yr adolygiad nesaf yn 2025.

**49.** Ym mis Medi 2024, penododd Llywodraeth Cymru Arup i ymgymryd ag adolygiad annibynnol o ddulliau cynllunio morol yng Nghymru. Ystyriodd yr adolygiad "sut gall Cymru ddatblygu'r fframwaith cynllunio morol ymhellach i ddarparu mwy o eglurder a chyfeiriad gofodol ar gyfer datblygiad morol, gan gydbwyso cefnogaeth i ynni adnewyddadwy â gwarchod a gwella'r amgylchedd morol". Roedd adroddiad yr adolygiad yn cynnwys naw argymhelliad.

**50.** Wrth ymateb i'r adolygiad, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet gynlluniau i gynnal asesiad gofodol manwl o foroedd Cymru:

> *"Bydd y dadansoddiad gofodol hwn yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'n partneriaid, gan gynnwys defnyddio tystiolaeth o waith mapio Gwely'r Môr Cyfan Ystâd y Goron, gan ddod â'r dystiolaeth orau sydd ar gael at ei gilydd i lywio cynllunio morol. Bydd yn cynyddu ein dealltwriaeth o adnoddau naturiol morol yn ogystal â mapio gwrthdaro posibl a synergeddau rhwng sectorau morol allweddol a hefyd â natur."*

**51.** Rydym wedi parhau i ddilyn polisïau morol yn ystod gwaith craffu Gweinidogol cyffredinol ac yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft. Rydym yn pryderu am asesiadau diweddar a ganfu bod 50 y cant o Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn cyflwr anffafriol, nad oes cynlluniau rheoli cyfredol ar gyfer y safleoedd pwysig hyn, ac na fydd ymrwymiadau i ddynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig newydd yn cael eu cyflawni yn ystod tymor y Senedd hon. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i sicrhau bod Llywodraeth nesaf Cymru yn rhoi blaenoriaeth ddigonol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd morol.

### Ansawdd dŵr: gollyngiadau carthffosiaeth

**52.** Yn dilyn newidiadau i'r gyfraith yn Lloegr gyda'r nod o leihau effaith gollyngiadau carthion o orlifoedd stormydd, a phryder parhaus y cyhoedd am

lygredd carthion yng Nghymru, fe wnaethom gwblhau ymchwiliad byr i orlifoedd stormydd. Ceisiodd yr ymchwiliad sefydlu maint y gollyngiadau carthion a sut roedd y trefniadau presennol (a oedd yn anelu at fynd i'r afael â'u heffaith) yn gweithio.

**53.** Yn ein hadroddiad (Mawrth 2022), fe wnaethom alw am gamau gweithredu "gan Lywodraeth Cymru, yn ei rôl arwain, i sicrhau bod nifer a chyfeintiau y gollyngiadau yn cael eu lleihau fel mater o frys". Fe wnaethom nifer o argymhellion gyda'r nod o: wella trefniadau monitro i ddeall yn well effaith gollyngiadau ar dderbyn dŵr; gwella tryloywder ynghylch gollyngiadau; a mynd i'r afael â gorlifiadau storm heb ganiatâd.

**54.** Un argymhelliad allweddol oedd i gwmnïau dŵr anelu at adrodd ar ollyngiadau o orlifoedd storm "cyn pen awr ar ôl i'r gollyngiad dechrau", er mwyn cyd-fynd â'r gofyniad statudol newydd ar gwmnïau dŵr yn Lloegr. Ers hynny, mae Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy wedi lansio mapiau gorlif storm bron mewn amser real.

**55.** Yn ein hadroddiad, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith y bydd rheoli'r galw ar y system garthffosiaeth, ac annog defnydd mwy effeithlon o ddraeniau a charthffosydd, yn hanfodol o ran lleihau amlder gollyngiadau carthffosiaeth yn y tymor hwy. Bydd hyn yn gofyn am ystyriaethau traws-sector, gan gynnwys ymyriadau mewn cynllunio i fynd i'r afael yn well ag 'ymlediad trefol'.

**56.** Rydym wedi cynnal diddordeb cryf yn y sector dŵr a'i reoleiddio yn y blynyddoedd dilynol. Yn ein hadroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru (Chwefror 2024), fe wnaethom fynegi pryder bod y sector yn wynebu argyfwng a bod ei ddyfodol yn ansicr. Gan hynny, roedd Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar y drafodaeth ar ddyfodol llywodraethu dŵr yn amserol ac yn ddatblygiad i'w groesawu. Fodd bynnag, o ystyried amseriad y cyhoeddiad, nid ydym wedi gallu ystyried y cynigion mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Rydym yn awgrymu y gallai ein pwyllgor olynol ddymuno blaenoriaethu diwygio dŵr fel rhan o'i raglen waith gynnar.

**57.** Er bod gollyngiadau carthion wedi bod yn brif ffocws ein gwaith ar ansawdd dŵr, rydym yn cydnabod bod ffynonellau sylweddol eraill o lygredd dŵr yng Nghymru, gan gynnwys amaeth. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i fyfyrio ar hyn mewn unrhyw waith yn y dyfodol yn y meysydd polisi hyn.

## Cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**58.** Wrth osod blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, fe wnaethom gytuno i ystyried trefniadau newydd Cymru ar gyfer cymorth amaethyddol o safbwynt amgylcheddol a chynaliadwyedd. Yn nhymor y gwanwyn 2024, cynhaliwyd ymchwiliad byr i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

**59.** Fe wnaethom gynnal ddigwyddiad i randdeiliaid, lle'r oedd cynrychiolwyr o'r sectorau amaethyddiaeth, bwyd a'r amgylchedd yn bresennol. Canolbwyntiodd trafodaethau o gwmpas y bwrdd ar nodi a chytuno ar atebion i'r heriau sy'n deillio o'r cynigion. Fe wnaethom hefyd gymryd tystiolaeth gan y diwydiant ffermio, cyrff anllywodraethol amgylcheddol ac academyddion.

**60.** Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2024. Ein prif gais oedd na ddylai unrhyw newid a wneir i'r cynigion i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan y diwydiant ffermio, yn enwedig mewn perthynas â'r gofynion 10 y cant o orchudd coed a rheoli cynefinoedd, beryglu uchelgeisiau amgylcheddol y Cynllun. Roedd yr argymhellion a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac a roddwyd ar waith yn sgil hynny yn cynnwys:

- gwobrwyo ffermwyr yn deg am gynnal tir Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o dan Gamau Gweithredu Cyffredinol y Cynllun, a
- sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn cael ei ymgorffori yn null talu'r Cynllun o'r cychwyn cyntaf.

**61.** Yn ein hadroddiad, fe wnaethom dynnu sylw at bwysigrwydd haenau Cydweithredol a Dewisol y Cynllun wrth gyflawni'r canlyniadau mwy uchelgeisiol ar gyfer yr amgylchedd. Mae'r haenau hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i gadw golwg ar yr opsiynau hyn, yn ogystal â chynnal goruchwyliaeth o'r Cynllun i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau amgylcheddol a fwriadwyd.

## Atal colledion byd natur, a gwrthdroi hynny erbyn 2030

**62.** 18 mis ar ôl mabwysiadu Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal (GBF), a chyn Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ('Bil yr Amgylchedd') y mae disgwyl eiddgar amdano, fe wnaethom gynnal ymchwiliad i ystyried sut roedd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r her o atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030.

**63.** Cafodd ein hadroddiad (Ionawr 2025) sylw yn adroddiad Archwilio Cymru, Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (Mawrth 2025) ac ym Memorandwm Esboniadol Bil yr Amgylchedd. Roedd y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys ein canfyddiadau i amlygu anfanteision cynnal y rhwymedigaethau fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol sy'n cefnogi bioamrywiaeth.

**64.** Fe wnaethom godi pryder nad oedd Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd targed '30 erbyn 30' y Fframwaith Bioamrywiaeth. Fe wnaethom bwysleisio'r angen i gyflymu gweithredu, gan alw am gynllun credadwy i ategu'r gwaith o gyflawni targedau. Fel man cychwyn, fe wnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio i benderfynu a yw ardal yn cyfrif tuag at y targed. Fe wnaethom alw am sicrwydd y bydd y meini prawf yn "gwneud yn glir y dylid monitro safleoedd gwarchodedig i nodi llinellau sylfaen ac asesu cynnydd, y dylent fod â chynllun rheoli, ac y dylent fod mewn cyflwr ffafriol neu'n gwella er mwyn cyfrif tuag at y targed".[5]

**65.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein hargymhellion ac, ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd ei Fframwaith 30 x 30 i Gymru, gan nodi ei hymagwedd gyffredinol at gyflawni targedau. Roedd y Fframwaith yn cynnwys meini prawf a oedd yn cyd-fynd â'n argymhelliad.

**66.** Rydym yn cydnabod ymdrechion Llywodraeth Cymru i ategu camau gweithredu bioamrywiaeth, gan gynnwys drwy Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, y Prosiect Morwellt, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, y Gronfa Rhwydweithiau Natur ac ailgyflwyno afancod. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i gadw golwg ar fuddsoddiadau yn y rhaglenni a'r mentrau hyn a'u canlyniadau fel rhan o'i waith craffu parhaus.

**67.** Rydym yn ymwybodol bod adroddiad cynnydd 2025 ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan gan y sector amgylcheddol anllywodraethol ar y targed 30 erbyn 30 yn awgrymu y bydd Cymru gryn dipyn yn brin o'r nod. Mae'n amlwg bod heriau sylweddol yn wynebu Llywodraeth nesaf Cymru os yw am gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth presennol. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i ystyried craffu ar gynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiadau hyn fel maes gwaith blaenoriaeth.

[5] Adroddiad ar Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030, Ionawr 2025

## Gwaith dilynol

**68.** Oherwydd cyfyngiadau amser a chapasiti, prin fu'r cyfle i ymgymryd â gwaith dilynol i asesu cynnydd o ran gweithredu ein hargymhellion. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd drwy sesiynau craffu Gweinidogol cyffredinol. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i ystyried ymgorffori dull cadarn a systematig o fynd ar drywydd materion yn ei ffyrdd o weithio.

## Gwaith craffu cyffredinol

**69.** Wrth bennu ein blaenoriaethau ar ddechrau'r Chweched Senedd, fe wnaethom gytuno i gynnal sesiynau craffu Gweinidogol cyffredinol rheolaidd. Mae'r rhain wedi ein galluogi i holi Gweinidogion ynghylch datblygiadau sy'n dod i'r amlwg, materion gweithredu, a chyflawni polisi sydd y tu allan i waith ymchwilio wedi ei gynllunio.

**70.** Rydym wedi mynd ar drywydd amrywiaeth o faterion yn barhaus, gan gynnwys:

- gweithredu mesurau economi gylchol, gan gynnwys Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, Cynllun Dychwelyd Ernes, rhwymedigaethau ailgylchu yn y gweithle a thargedau gwastraff statudol newydd;
- datblygu gwaith traws-sector ar ansawdd dŵr;
- cynyddu cyfraddau plannu coed, a datblygu a chyhoeddi Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Pren;
- rheoli'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chynigion ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol newydd;
- teithio llesol;
- y polisi terfyn cyflymder diofyn 20 milltir yr awr;
- parcio ar balmentydd a chynnal a chadw ffyrdd;
- diwygio tacsis/cerbydau hurio preifat;
- gwefru cerbydau trydan.

## Cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau newid hinsawdd

**71.** Yn ystod y Chweched Senedd, rydym wedi cynnal sawl sesiwn a neilltuwyd i graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru tuag at ei hymrwymiadau newid hinsawdd.

**72.** Yn dilyn cyhoeddi Cymru Sero Net ym mis Hydref 2021, fe wnaethom gynnal sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd i archwilio'r polisïau a'r cynigion yn y cynllun. Ers hynny rydym wedi cynnal sawl sesiwn i asesu'r cynnydd tuag at gyflawni Cyllideb Carbon 2 (2021-25) a thargedau lleihau allyriadau carbon ehangach.

**73.** Fe wnaethom graffu ar y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd ar Ddatganiad Terfynol Cyllideb Carbon 1. Cafodd hyn ei lywio gan dystiolaeth a ddaeth i law gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig.[6]

**74.** Er nad yw data terfynol allyriadau tiriogaethol ar gael eto ar gyfer 2024 a 2025, mae amcangyfrifon cyfredol yn dangos bod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i ragori ar Gyllideb Carbon 2. Gan hynny, bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn mynd i mewn i gyfnod y gyllideb carbon nesaf (2026-2030) o sefyllfa gymharol gryf. Fodd bynnag, mae Cyllideb Carbon 3 yn llawer mwy heriol a bydd datgarboneiddio yn y dyfodol yn dod yn fwyfwy dibynnol ar weithredu polisi mewn meysydd datganoledig, gan gynnwys amaethyddiaeth a thrafnidiaeth. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i graffu ar y cynllun lleihau allyriadau carbon nesaf yn gynnar yn y Seithfed Senedd, ac i ystyried craffu ar gynnydd tuag at Gyllideb Carbon 3 a tharged interim 2030 fel meysydd gwaith blaenoriaeth.

**75.** Rydym wedi cynnal perthynas waith gadarnhaol â Phwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig drwy gydol tymor y Senedd hon. Rydym wedi cyfarfod yn ffurfiol ac yn anffurfiol â Chadeiryddion pwyllgorau Lliniaru ac Addasu Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig, a chyda'i Brif Weithredwr. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i barhau â'r berthynas hon yn y Seithfed Senedd.

**76.** Mae ein gwaith, sy'n cwmpasu ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, digwyddiadau stormydd a safleoedd glo brig, yn tanlinellu effeithiau cynyddol weladwy a niweidiol newid hinsawdd, a'r angen i gyflymu ymdrechion i addasu. Bydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd – Asesiad Effaith (CCRA-IA4) Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig yn rhoi cyfle i'n pwyllgor olynol archwilio risgiau

[6] Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig yw cynghorydd annibynnol statudol Llywodraeth Cymru ar newid hinsawdd.

hinsawdd esblygol Cymru. Byddem yn annog y pwyllgor i ystyried hyn wrth benderfynu ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.

**77.** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb eto i adroddiad addasu i'r hinsawdd gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Storm Berffaith (Hydref 2025). Rydym yn cydnabod mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd gweithredu argymhellion y Comisiwn Seilwaith. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i ddilyn y cynnydd tuag at ei weithredu yn ystod y Chweched Senedd.

## Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd

**78.** Fel yr amlinellwyd yn gynharach, cafodd ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd eu llywio gan ymgynghoriad cyhoeddus a sesiynau tystiolaeth thematig gyda rhanddeiliaid. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i ystyried dull tebyg. Ymhellach, mae'n bosibl y buasai'r pwyllgor yn dymuno ystyried adolygu ei flaenoriaethau ar adeg briodol yn nhymor y Senedd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol i faterion sy'n dod i'r amlwg.

**79.** Er ein bod ni'n cydnabod mai mater i'n pwyllgor olynol fydd penderfynu ar ei flaenoriaethau, byddem yn gofyn iddo ystyried y canlynol:

- amddiffyn a gwella'r amgylchedd morol;
- llywodraethu'r sector dŵr yn y dyfodol;
- cyflawni canlyniadau amgylcheddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang a domestig, yn enwedig y targed 30 erbyn 30 a datblygu targedau bioamrywiaeth statudol newydd;
- cynllun newydd Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon, a chynnydd tuag at gyflawni Cyllideb Carbon 3 a tharged interim 2030;
- chynnydd wrth addasu i newid hinsawdd;
- cyflenwi ynni adnewyddadwy;
- masnachfraint bysiau a diwygio rheilffyrdd;
- yr angen i ddiwygio trwyddedu a rheoleiddio tacsis a cherbydau hurio preifat;

- cyflawni Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ac effeithiolrwydd y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol;
- yr angen i fynd i'r afael â pharcio ar balmentydd a'r ôl-groniad cynnal a chadw ffyrdd.

## Argymhellion

**Argymhelliad 2.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried ymgorffori dull cadarn a systematig o gymryd camau dilynol yn ei ffyrdd o weithio. Gellid cyflawni hyn drwy gynnwys gwaith dilynol yng ngwaith cynllunio ymchwiliadau o'r cychwyn cyntaf a sefydlu proses glir a chyson ar gyfer monitro ac adolygu gweithredu'r argymhellion.

**Argymhelliad 3.** Er mwyn llywio ei flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd, dylai ein pwyllgor olynol ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Dylai hefyd ystyried adolygu ei flaenoriaethau ar adeg briodol yn nhymor y Senedd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol i faterion sy'n dod i'r amlwg.

**Argymhelliad 4.** Wrth benderfynu ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd, dylai ein pwyllgor olynol ystyried ein hawgrymiadau ar gyfer meysydd gwaith blaenoriaeth a nodir ym mharagraff 79.

# 4. Craffu ar gyrff hyd braich a chyrff cynghori Llywodraeth Cymru

**80.** Mae gwaith craffu ar gyrff hyd braich a chyrff cynghori Llywodraeth Cymru wedi parhau i fod yn elfen graidd ein rhaglen waith. Rydym wedi cynnal gwaith craffu blynyddol ar:

- Trafnidiaeth Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru;
- Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru.

**81.** Yn unol ag arfer sefydledig, rydym wedi cynnal gwrandawiadau cyn-penodi gyda'r ymgeiswyr a ffafrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cadeiryddiaeth Trafnidiaeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

**82.** Mae ein hadroddiadau i'w gweld ar wefan y Senedd.

## Trafnidiaeth Cymru

**83.** Mae ein gwaith craffu ar brosesau corfforaethol Trafnidiaeth Cymru wedi canolbwyntio ar amrywiaeth o faterion, yn enwedig y broses o bennu cyllideb, tryloywder, adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol a rheilffyrdd, yn ogystal ag amrywiaeth a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

**84.** Rydym wedi pwyso'n gyson ar Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cyfres glir o ddangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol ac i wella eglurder a thryloywder ei adroddiadau, gan herio hefyd a yw ei ddangosyddion perfformiad allweddol yn briodol ac yn ddigonol. O ran rheilffyrdd, rydym wedi pwyso ar Trafnidiaeth Cymru i gyhoeddi data ar lefel llwybrau er mwyn galluogi'r cyhoedd i ddeall yn well ble mae gwasanaethau'n perfformio'n dda ac i ddwyn y sefydliad i gyfrif. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i wneud hyn.

**85.** Rydym wedi ceisio sicrhau mwy o ffocws ar amrywiaeth o fewn y sefydliad, yn enwedig drwy wella cydbwysedd rhwng y rhywiau a mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

**86.** Rydym wedi pwyso'n gyson ar Trafnidiaeth Cymru ynghylch ei brosesau i benderfynu ble i ganslo neu derfynu gwasanaethau ar fyr rybudd. Roedd hyn yn dilyn pryderon ynghylch diogelwch teithwyr yn deillio o adroddiadau am drenau'n cael eu terfynu mewn gorsafoedd heb opsiynau trafnidiaeth ymlaen neu mewn lleoliadau ynysig. Fe wnaethom hefyd dynnu sylw at yr angen i brosesau gwneud penderfyniadau ystyried amrywiadau tymhorol. Ymrwymodd Trafnidiaeth Cymru i ystyried y materion hyn. Yn ein sesiwn graffu flynyddol ddiweddaraf, adroddodd Trafnidiaeth Cymru:

> *"…there are a number of areas around the network where we have chosen to give different instructions to the control team when they have to abandon a service, which typically means that they abandon a service where there are staff and premises available, not, as you described earlier, where people are left in the middle of nowhere."*

**87.** Rydym hefyd wedi annog Trafnidiaeth Cymru i wella ei waith cynllunio, ochr yn ochr â Network Rail, o ran darparu gwasanaethau rheilffyrdd ar gyfer digwyddiadau mawr. Gwelsom fod y ddarpariaeth yn 'annigonol', yn enwedig ar adegau pan mae gemau pêl-droed cenedlaethol Cymru yn cael eu cynnal. Mae hyn wedi arwain at gerbydau ychwanegol, ymadawiadau hwyrach a chynllunio gwaith peirianneg yn well o gwmpas digwyddiadau mawr.

**88.** Cydnabuwyd ein rôl a'n dylanwad gan Trafnidiaeth Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru. Wrth roi tystiolaeth i ni ar ddiwedd y Chweched Senedd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Mae argymhellion y Pwyllgor wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddatblygu ein gwaith llywodraethu Trafnidiaeth Cymru gan gynnwys craffu ar gyllid Trafnidiaeth Cymru yn ystod y gyllideb ddrafft, cyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol, a datblygu'r Bwrdd Perfformiad.*
>
> *Cyfrannodd eich argymhellion ar gyllideb ddrafft Trafnidiaeth Cymru at y cyllid ychwanegol i gyflawni'r gwaith o fasnachfreinio bysiau. Mae'r rhaglen heriol a chymhleth hon bellach yn cael ei chefnogi gan grŵp nawdd ar y cyd newydd y mae uwch arweinwyr o'r ddau sefydliad yn ei fynychu."*

**89.** Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i feithrin dull heriol ond cadarnhaol o graffu ar Trafnidiaeth Cymru. Byddem yn annog y pwyllgor i graffu ar weithredu

masnachfreinio bysiau a Bil Rheilffyrdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig (os caiff ei ddeddfu), yn enwedig effeithiolrwydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig a datblygu trefniadau partneriaeth gyda Great British Rail.

## Cyfoeth Naturiol Cymru

**90.** Wrth graffu ar Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym wedi archwilio'r modd mae'n cael ei lywodraethu a'r modd mae'n cyflawni ymrwymiadau ei gynllun busnes, ac amrywiaeth o faterion polisi pwysfawr. Rydym wedi tynnu sylw'n gyson at gyfyngiadau adnoddau a chapasiti ar draws ei bortffolio.

**91.** Yn ystod tymor y Senedd hon, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael sawl adolygiad mewnol sylweddol gyda'r nod o alinio ei flaenoriaethau, ei adnoddau a'i rwymedigaethau statudol yn well. Roedd hyn yn cynnwys 'adolygiad sylfaenol', y rhaglen Adfywio, ac yn fwy diweddar yr 'Achos dros Newid'. Rydym wedi cymryd diddordeb manwl yn yr adolygiadau hyn ac wedi codi pryderon ynghylch gostyngiadau mewn staffio, cau canolfannau ymwelwyr, a newidiadau i arferion gorfodi.

**92.** Rydym wedi pwyso ar Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod pob system gorlif storm didrwydded yn cael ei dwyn o fewn y drefn reoleiddio, a gwella ei waith ymchwilio i ddigwyddiadau llygredd a'i ymateb iddynt.

**93.** Rydym wedi cymryd diddordeb brwd yn natblygiad gweithgarwch masnachol Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys cynhyrchu pren a datblygiadau gwynt ar y tir. Rydym wedi tynnu sylw'n gyson at y cyfyngiadau ar allu Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli incwm masnachol a gwneud penderfyniadau buddsoddi tymor hwy oherwydd cylch cyllideb blynyddol Llywodraeth Cymru.

**94.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod drwy ambell flwyddyn gythryblus, ond mae bellach yn dechrau cyfnod yr ydym yn gobeithio y bydd yn fwy sefydlog. Rydym yn awyddus i weld pwyslais cryf a chyson ar gyflawni, gyda gwelliant parhaus wedi ei ymgorffori mewn ffyrdd o weithio. Byddem yn disgwyl i'n pwyllgor olynol barhau i ganolbwyntio ar graffu ar Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

**95.** Thema sy'n dod i'r amlwg yn ein gwaith craffu ar y Comisiwn Seilwaith yw effeithiolrwydd model presennol y Comisiwn, gan gynnwys a fydd yn parhau i fod yn addas i'r diben yn y blynyddoedd i ddod. Wrth ragweld yr adolygiad arfaethedig o statws, cylch gwaith ac amcanion y Comisiwn Seilwaith, fe

wnaethom gyflwyno nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ein hadroddiad ym mis Ebrill 2024. Roedd yr argymhellion hyn yn nodwedd amlwg yn adolygiad archwilio mewnol Llywodraeth Cymru o'r Comisiwn.

**96.** Un o'n prif argymhellion oedd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinweddau ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn yn y dyfodol gynnal asesiad seilwaith cenedlaethol o anghenion seilwaith hirdymor Cymru. Wedi ei ysgogi gan ein hargymhelliad, mae'r Comisiwn Seilwaith wrthi'n cynnal 'asesiad bychan o'r seilwaith'. Bwriad y gwaith hwn yw llywio penderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch a fyddai asesiad mwy cynhwysfawr yn briodol ac yn cynnig gwerth am arian.

**97.** Yn ein hadroddiad ym mis Mehefin 2025, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i roi eglurder ynghylch dyfodol y Comisiwn. Arweiniodd hyn at gyhoeddi papur trafod y Comisiwn Seilwaith, Opsiynau ar gyfer esblygiad y Comisiwn Seilwaith (Medi 2025). Rydym yn cydnabod mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd y penderfyniadau ynghylch dyfodol y Comisiwn Seilwaith. Byddem yn disgwyl i'r Llywodraeth nesaf roi ystyriaeth ofalus i'r materion a godwyd ym mhapur trafod y Comisiwn Seilwaith wrth ddod i'w phenderfyniad.

## Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

**98.** Wrth gytuno ar eich blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, fe wnaethom ymrwymo i graffu ar weithrediad parhaus y mesurau interim i ddiogelu'r amgylchedd nes bod trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol yn eu lle. Digwyddodd hyn ar ffurf sesiynau craffu blynyddol gydag Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru.

**99.** Roedd ein hadroddiad cyntaf (Medi 2022) yn cynnwys argymhellion ar gyfer yr Asesydd Interim i wella tryloywder a chynyddu gwelededd y gwasanaeth, ac i gryfhau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Wrth dderbyn ein hargymhellion, dywedodd yr Asesydd Interim:

> *"[Maent] yn becyn pwysig o welliannau i sicrhau y gall yr AIDAC gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol nes bod corff goruchwylio amgylcheddol parhaol ar waith".*

**100.** Mae canlyniadau cadarnhaol eraill sy'n deillio o'n gwaith craffu ar yr Asesydd Interim a'r mesurau interim yn cynnwys:

- cynnydd yn nyraniad y gyllideb ar gyfer yr Asesydd Interim (gweler Pennod 6);
- trefniadau cryfach ar gyfer monitro ac adrodd ar effaith y mesurau interim;
- ffurfioli trefniadau i Lywodraeth Cymru ymateb i adroddiadau'r Asesydd Interim, gan gynnwys Datganiadau Ysgrifenedig i roi gwybod i'r Senedd am ymateb; a hefyd
- cynhyrchu adroddiad Gwersi a Ddysgwyd yr Asesydd Interim i helpu i lywio cynigion manwl ar gyfer y corff llywodraethu amgylcheddol newydd ar gyfer Cymru.

**101.** Wrth edrych ymlaen, yn amodol ar Gydsyniad Brenhinol i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth), bydd y Seithfed Senedd yn gweld sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i gadw golwg barcud ar gynnydd tuag at sefydlu'r Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol.

## Argymhellion

**Argymhelliad 5.** Dylai ein pwyllgor olynol gynnal gwaith craffu cadarn ar Trafnidiaeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y Seithfed Senedd. Dylai hefyd anelu at gynnal perthynas waith adeiladol gyda'r ddau gorff, er mwyn hwyluso ymddiriedaeth gydfuddiannol ac ymgysylltu effeithiol.

**Argymhelliad 6.** Dylai ein pwyllgor olynol ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn gynnar yn y Seithfed Senedd i geisio eglurhad ar ei chynlluniau ar gyfer dyfodol y Comisiwn Seilwaith, gan gynnwys unrhyw newid arfaethedig i statws, rôl neu gylch gwaith y corff.

**Argymhelliad 7.** Dylai ein pwyllgor olynol fanteisio'n llawn ar y cyfle i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o benodi aelodau anweithredol a Phrif Weithredwr cyntaf Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.

# 5. Gwaith craffu deddfwriaethol

## Deddfwriaeth sylfaenol

**102.** Rydym wedi cael llwyth gwaith deddfwriaethol sylweddol yn ystod tymor y Senedd hon, gan graffu ar chwe Bil - mwy nag unrhyw bwyllgor polisi arall. Mae pynciau'r Biliau hyn wedi cwmpasu hyd a lled ein cylch gwaith. Ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 3.

**103.** Mae ansicrwydd ynghylch amseriad Biliau, ynghyd â newidiadau i raglenni, wedi gwneud cynllunio gwaith strategol yn anodd. Yn amlach na pheidio, dim ond pan fydd y Pwyllgor Busnes yn ymgynghori ag ef ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu y cawn wybod am y Bil sydd ar fin cael ei gyflwyno. O ganlyniad, rydym wedi gorfod ailflaenoriaethu ein gwaith er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ein hymrwymiadau craffu deddfwriaethol.

**104.** Er ein bod ni'n croesawu ymgynghoriad gan y Pwyllgor Busnes ar dablau craffu arfaethedig, cyfyngedig fu'r wybodaeth a gawsom am gynnwys a chymhlethdod Biliau er mwyn gallu dod i farn gwbl wybodus.

**105.** Mae amserlenni craffu wedi bod yn heriol ac wedi cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ystyrlon. Fel arfer, rydym wedi cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus i lywio gwaith craffu ar Gyfnod 1. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom wedi bod yn amhrisiadwy o ran deall effaith Biliau ac unrhyw ganlyniad anfwriadol posibl, ymhlith pethau eraill. Fodd bynnag, mae cyfnodau ymgynghori wedi bod yn fyr o reidrwydd (dim mwy na chwe wythnos fel arfer), a all fod yn rhwystr i ymgysylltu.

**106.** Fe wnaethom rannu ein myfyrdodau ar graffu deddfwriaethol gyda'r Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion i helpu i lywio eu gwaith i baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd.[7] Wrth wneud hynny, fe wnaethom awgrymu y gallai'r Pwyllgor Busnes fod eisiau

- archwilio beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod y pwyllgorau yn cael eu hysbysu ymhellach ymlaen llaw o amseriad cyflwyno Biliau y byddant yn gyfrifol am graffu arnynt;

[7] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes, dyddiedig 30 Ebrill 2025, a llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Gadeirydd Fforwm y Cadeiryddion, dyddiedig 3 Tachwedd 2025.

- ystyried y manteision i bwyllgorau o dderbyn copi cyfrinachol o'r Bil drafft a'r Memorandwm Esboniadol er mwyn galluogi ymgynghori mwy ystyrlon ar amserlenni craffu arfaethedig; ac
- ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn gynnar yn y Senedd nesaf ynghylch sut gellid gwella'r amserlen er mwyn sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar graffu.

**107.** Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i barhau i fynd ar drywydd y materion hyn yn y Seithfed Senedd.

## Mynd i'r afael â heriau craffu

**108.** Rydym wedi ymgysylltu'n adeiladol â Llywodraeth Cymru, gan negodi atebion ymarferol i heriau wrth geisio diogelu uniondeb y broses graffu deddfwriaethol.

### Atal 'diffyg craffu'

**109.** Wrth gyhoeddi ei fwriad i gyflwyno Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), nododd y Prif Weinidog ar y pryd y byddai'n ceisio cytundeb gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer amserlen graffu gyflym (h.y. i'r Bil osgoi craffu Cyfnod 1). Y rhesymeg dros hyn oedd rhoi modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil fel enghraifft ymarferol i gynorthwyo ei her gyfreithiol i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.

**110.** Fe wnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn nodi ein barn gychwynnol ar y dull arfaethedig. Gan ein bod ni'n pryderu am y risg o ddiffyg craffu o fewn amserlen gyflym, fe wnaethom drafod cytundeb i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Bil ar ffurf drafft cyn ei gyflwyno er mwyn galluogi archwilio y tu allan i broses ffurfiol Cyfnod 1.

**111.** Fe wnaethom ymgynghori ar y Bil drafft, a daeth 34 o ymatebion i law, ac wedi hynny fe wnaethom gymryd tystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid. Cyhoeddwyd ein hadroddiad cyn y ddadl Cyfnod 1 i lywio penderfyniad y Senedd ynghylch y cwestiwn a ddylid bwrw ymlaen â'r Bil.

**112.** Arweiniodd argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad at ddiwygio'r Bil, e.e. i gynnwys gofynion ar gyfer canllawiau statudol i ategu gweithredu ac ymgynghori ar unrhyw reoliad yn y dyfodol i ychwanegu eitemau neu eithriadau at y rhestr o blastigau untro gwaharddedig.

### Craffu ar Filiau cyfredol

**113.** Cyfeiriwyd tri Bil atom, un ar ôl y llall, yn ystod rhan olaf tymor y Senedd, gyda gorgyffwrdd sylweddol rhwng amserlenni craffu. Roedd hyn yn golygu bod angen craffu arnynt ar yr un pryd, a oedd yn her sylweddol.




*Diagram yn dangos gwaith craffu ar dri Bil ar yr un pryd*

**114.** Er mwyn rheoli gwaith craffu ar yr un pryd yn effeithiol ar y Bil Gwasanaethau Bysiau a Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), fe wnaethom gytuno i gymryd tystiolaeth ymlaen llaw ar yr olaf. Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cael digon o amser i baratoi cyn sesiynau tystiolaeth lafar, fe wnaethom sicrhau cytundeb gyda Llywodraeth Cymru i roi golwg gynnar iddynt ar y Bil a'r Memorandwm Esboniadol. Cafodd ein dull ei ganmol gan randdeiliaid, a helpodd i sicrhau tystiolaeth gynhwysfawr o ansawdd uchel i ategu'r gwaith craffu.

**115.** Er nad ydym o'r farn bod cynnal gwaith craffu ar Filiau ar yr un pryd wedi effeithio'n andwyol ar ansawdd ein gwaith craffu, credwn y dylid osgoi hynny, lle bynnag y bo modd.

### Dylanwadu ar gyfraith Cymru

**116.** Mae ein gwaith craffu deddfwriaethol yn darparu rhai o'r enghreifftiau cliriaf o effaith ein gwaith. Mae ein hadroddiadau Cyfnod 1 wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y camau gwelliannau ac wedi arwain at newidiadau sylweddol yng nghyfraith Cymru yn y dyfodol.

## Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

**117.** Ers dechrau'r Chweched Senedd, rydym wedi bod yn dyfalbarhau â'n hymgais i gael Bil i fynd i'r afael â'r bwlch llywodraethu amgylcheddol ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a gosod targedau bioamrywiaeth.

**118.** Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd i'r Senedd ar 2 Mehefin 2025 ac fe'i cyfeiriwyd atom ar gyfer gwaith craffu.

**119.** Roedd ein hadroddiad yn cynnwys 42 o argymhellion, ac roedd 36 ohonynt ar gyfer gwelliannau i'r Bil. Cyflwynwyd gwelliannau i roi effaith i 20 o'r rhain ac fe'u cytunwyd wedi hynny yng Nghyfnodau 2 a 3.

**120.** Mae'r newidiadau allweddol a wnaed i'r Bil o ganlyniad i'n hargymhellion yn cynnwys:

- cyflwyno gwaith craffu'r Senedd ar yr egwyddorion amgylcheddol a'r datganiad diogelu'r amgylchedd integredig – dogfen allweddol a fydd yn sefydlu sut dylid dehongli'r pedair egwyddor amgylcheddol yng nghyd-destun Cymru;
- egluro annibyniaeth y corff amgylcheddol newydd ar Weinidogion Cymru;
- cryfhau annibyniaeth y corff ymhellach, e.e. drwy sicrhau y gall aelod o'r Senedd eistedd ar y panel penodi ar gyfer aelodau anweithredol y corff a'r Prif Weithredwr cyntaf;
- mewnosod darpariaeth codiad haul i sicrhau bod y corff yn dod yn gwbl weithredol o fewn dwy flynedd ar ôl Cydsyniad Brenhinol (oni bai bod y Senedd yn penderfynu fel arall);
- ailganolbwyntio pwrpas cyffredinol y corff;
- cyflwyno dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n galluogi dinasyddion i wneud sylwadau ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol;
- gosod amserlen fwy uchelgeisiol ar gyfer targedau bioamrywiaeth tymor byr a thymor hir;
- darparu goruchwyliaeth annibynnol o gynnydd tuag at gyflawni'r targedau hynny a chamau gweithredu bioamrywiaeth ehangach.

### Y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

**121.** Cafodd y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Rhagfyr 2024 ac fe'i cyfeiriwyd atom ar gyfer gwaith craffu.

**122.** Thema allweddol ein hadroddiad oedd y ddibyniaeth ar ganllawiau yn ôl disgresiwn yn y dyfodol i bennu manylion polisi. Gan nodi na fyddai'r drefn diogelwch newydd ar gyfer tomenni glo yn dod i rym tan 1 Ebrill 2027, fe wnaethom fynnu:

> *"Gan hynny, mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd penderfynu ar fanylion y polisi, ac a ddylid cyhoeddi canllawiau. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar unrhyw lywodraeth newydd i fodloni ymrwymiadau a wnaed gan y Llywodraeth hon mewn perthynas â rhoi canllawiau, na'r hyn fydd mewn canllawiau o'r fath… mae gadael manylion y polisi i ganllawiau yn golygu y gellir gwneud newidiadau sylweddol yn y dyfodol, a allai effeithio ar effeithiolrwydd y drefn newydd, heb ymgynghori na chraffu yn y Senedd."*

**123.** Daethom i'r casgliad a ganlyn:

> *"Rydym yn cydnabod bod gan ganllawiau rôl i'w chwarae wrth sicrhau gweithrediad effeithiol y Bil. Serch hynny, ni ddylid eu defnyddio i lenwi manylion polisi pwysig y byddem yn disgwyl iddynt gael eu nodi fel arfer mewn deddfwriaeth, gan ddarparu goruchwyliaeth ddemocrataidd briodol."*

**124.** Fe wnaethom gyfres o argymhellion gyda'r nod o sicrhau cydbwysedd mwy priodol rhwng y manylion a gynhwysir mewn deddfwriaeth (naill ai yn y Bil neu reoliadau yn y dyfodol) a'r hyn sy'n cael ei adael i ganllawiau. Er enghraifft, disgrifiwyd 'cynlluniau rheoli' ar gyfer tomenni nas defnyddir gan Ysgrifennydd y Cabinet fel rhywbeth 'hollol hanfodol' i'r drefn newydd. Er gwaethaf eu pwysigrwydd, byddai'r cynlluniau hyn yn anstatudol, a byddent yn cael eu cyflawni drwy ganllawiau yn unig. Daethom i'r casgliad a ganlyn:

> *"Mae hepgor cynlluniau rheoli yn wendid allweddol yn y Bil. Mae'n gadael bwlch sylweddol ac annymunol yn y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir."*

**125.** Fe wnaethom argymell diwygio'r Bil i roi dyletswydd ar Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru i ddatblygu cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni 'risg uchel' ac i alluogi'r Awdurdod i'w datblygu ar gyfer tomenni eraill.

**126.** Fe wnaethom hefyd alw am ofyniad ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau ar elfennau allweddol y drefn newydd, gan gynnwys asesiadau rhagarweiniol a llawn, a monitro ac arolygiadau, yn hytrach na gadael darparu canllawiau o'r fath i ddisgresiwn Gweinidogion Cymru yn y dyfodol.

**127.** Derbyniwyd 9 allan o 15 o argymhellion ar gyfer gwelliannau gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai a amlinellwyd uchod, gan arwain at newidiadau sylweddol i'r Bil.

## Canlyniadau craffu cadarnhaol eraill

**128.** Nid cyflawni newidiadau i Filiau yw unig ganlyniad cadarnhaol craffu deddfwriaethol. Mewn ymateb i'n hargymhellion, rydym wedi sicrhau ymrwymiadau Gweinidogol ar amrywiaeth eang o faterion, er enghraifft:

- rhaglen barhaus o addysg a chyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth am yr angen i leihau llygredd plastig (yn dilyn gwaith craffu ar Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru);
- cryfhau canllawiau Llywodraeth Cymru ar Reoli Ansawdd Aer Lleol (yn dilyn gwaith craffu ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru);
- hysbysu'r Senedd wrth ddynodi datganiadau polisi seilwaith o dan Fil Seilwaith (Cymru);
- cyhoeddi datganiad polisi ar sut bydd teithio gan ddysgwyr yn cael ei gefnogi o dan Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru);
- datblygu Siarter Bysiau Teithwyr ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli defnyddwyr â nodweddion gwarchodedig;
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol i helpu i gyflawni uchelgeisiau Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

## Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

**129.** Mae nifer Biliau'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu defnyddio i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn ystod tymor y Senedd wedi bod yn arbennig o uchel. Rydym wedi trafod 29 o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, sy'n cynnwys Memoranda Atodol. Ceir rhestr yn Atodiad 4.

**130.** Fel yr amlinellwyd yn ein hadroddiad cyntaf ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Chweched Senedd:

> *"Mae'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn cynnwys gofyn i'r Senedd gytuno i Senedd y DU ddeddfu ar ei rhan mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Ni ddylid tanddatgan yr angen am graffu digonol ar unrhyw gynigion o'r fath."*

**131.** Yn yr adroddiad hwnnw, fe wnaethom dynnu sylw at bryderon ynghylch amserlenni cywasgedig yn cyfyngu ar waith craffu. Er bod yr amser sydd ar gael ar gyfer craffu wedi amrywio, mae hyn wedi parhau i fod yn thema sy'n codi dro ar ôl tro yn ein hadroddiadau dilynol.

**132.** Mae amserlenni craffu wedi cyfyngu ar gyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid, sydd wedi effeithio ar ein gallu i gynnal gwaith craffu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er ein bod ni wedi cynnal ymgynghoriad wedi ei dargedu, er enghraifft, ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig), mae hyn wedi bod yn eithriad yn hytrach na'r norm. Yn ogystal, nid yw amserlenni cywasgedig wedi rhoi modd i ni gynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda Gweinidogion. Yn hytrach, rydym wedi dibynnu ar ohebiaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith. Nid dyma'r dull gorau posibl ar gyfer gwaith craffu effeithiol.

**133.** Mae amserlenni ar gyfer Memoranda Atodol, yn arbennig, wedi bod yn anymarferol ac, mewn rhai achosion, yn afresymol. Roedd yr amserlen ar gyfer Memorandwm Atodol (Memorandwm Rhif 3) Bil Banc Seilwaith y Deyrnas Unedig yn rhoi llai na thair wythnos waith i ni ystyried ac adrodd arno. Yn achos y Memorandwm Atodol ar gyfer Bil yr Amgylchedd, dim ond wythnos a ddarparwyd, a oedd yn golygu bod gwaith craffu yn amhosibl.

**134.** Yn ogystal, bu achlysuron pan fu amserlenni cywasgedig, ynghyd â chyfyngiadau ar gapasiti, yn rhwystr i ni rhag cynnal gwaith craffu. Er enghraifft, cyfeiriwyd nifer o Femoranda Atodol atom pan oeddem eisoes yn craffu ar ddau Fil ar yr un pryd.

**135.** Ar ddechrau'r Chweched Senedd, fe wnaethom awgrymu y gallai'r Pwyllgor Busnes ddymuno adolygu'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol i sicrhau ei bod yn addas at y diben.[8] Credwn fod angen ystyriaeth bellach ar adolygiad o'r fath.

## Craffu ar ôl deddfu

**136.** Mae craffu ar ôl deddfu yn rhoi sicrwydd bod deddfau'n gweithredu'n effeithiol yn ymarferol, yn cyflawni eu canlyniadau arfaethedig, ac nad ydynt yn arwain at ganlyniadau anfwriadol. Mae'n hyrwyddo atebolrwydd ac yn cefnogi deddfu gwell. Wrth i gorff cyfraith Cymru barhau i dyfu, mae craffu ar ôl deddfu yn dod yn bwysicach fyth.

**137.** Ar ddechrau'r Chweched Senedd, fe wnaethom amlygu craffu ôl-ddeddfwriaeth ar Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 fel maes gwaith blaenoriaeth. Yn anffodus, o ystyried ein llwyth gwaith deddfwriaethol sylweddol, nid oedd modd i ni fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Bu datblygiadau pellach yn ystod y Senedd hon gan gynnwys Deddf Seilwaith (Cymru) 2024, y Deddfau cydgrynhoi cynllunio, a mentrau Llywodraeth Cymru i gynyddu capasiti a sgiliau yn y system gynllunio. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i gynnwys craffu ar system gynllunio Cymru, gan gynnwys craffu ôl-ddeddfwriaeth ar y Ddeddf Cynllunio, fel blaenoriaeth gynnar ar gyfer y Seithfed Senedd. Wrth wneud hynny, mae'n bosibl y bydd yn dymuno ystyried digonolrwydd adnoddau cynllunio'r sector cyhoeddus.

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**138.** Fel rhan o'n hymchwiliad i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030, fe wnaethom ystyried gweithredu ac effaith darpariaethau allweddol yn Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**139.** Pan ddaeth yn ddeddf yn y lle cyntaf, ystyriwyd bod y Deddf yn flaengar ac yn arloesol, gan roi fframwaith ar waith i gynorthwyo'r broses o ddatblygu a gweithredu polisïau i reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Fodd bynnag, canfuom nad yw'r Ddeddf wedi ei gwreiddio yn ôl y bwriad a bod elfennau allweddol wedi bod yn aneffeithiol i raddau helaeth o ran ysgogi gweithredu dros natur. Ers y Ddeddf, mae'r angen i weithredu dros natur wedi tyfu, gyda datganiad argyfwng natur gan y Senedd, ac ymrwymiadau bioamrywiaeth newydd yn deillio o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.

[8] Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd, Medi 2021

**140.** Daethom i'r casgliad bod y problemau gyda'r Ddeddf yn ddeublyg: gwendidau o ran sut mae rhai darpariaethau wedi eu drafftio a gweithredu aneffeithiol. Fe wnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) arfaethedig i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

**141.** Fel yr amlinellwyd yn gynharach, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at ein canfyddiadau yn y Memorandwm Esboniadol i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth). Rhoddodd ein gwaith trafod ar y Ddeddf gyd-destun a mewnwelediad gwerthfawr i gynorthwyo â'n gwaith craffu ar y Bil hwnnw.

## Argymhellion

**Argymhelliad 8.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried mynd ar drywydd y canlynol gyda Phwyllgor Busnes y Seithfed Senedd:

- beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod pwyllgorau'n cael eu hysbysu ymhellach ymlaen llaw o amseriad cyflwyno Biliau,
- y manteision i bwyllgorau o dderbyn copi cyfrinachol o'r Bil drafft a'r Memorandwm Esboniadol er mwyn galluogi ymgynghoriad mwy ystyrlon ar amserlenni craffu arfaethedig,
- sut gellir gwella amserlennu i sicrhau nad yw'n effeithio'n negyddol ar graffu.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Pwyllgor Busnes yn y Seithfed Senedd ystyried rhinweddau adolygu'r broses a'r gweithdrefnau ar gyfer craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol gyda'r bwriad o fodloni ei hun eu bod yn addas at y diben.

**Argymhelliad 10.** Dylai ein pwyllgor olynol gynnal goruchwyliaeth o weithredu a chyflawni'r ddeddfwriaeth sylfaenol a fu'n destun gwaith craffu gan y pwyllgor hwn yn ystod y Chweched Senedd.

**Argymhelliad 11.** Dylai ein pwyllgor olynol gynnwys craffu ôl-ddeddfwriaeth ymhlith ei flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd ac ystyried gwaith cynnar ar Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

# 6. Craffu ariannol

## Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru

**142.** Rydym wedi cynnal gwaith craffu blynyddol ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru i'r graddau mae'n ymwneud â'n cylch gwaith.

**143.** Mae amserlenni craffu wedi parhau i fod yn heriol, yn enwedig gan fod ein cylch gwaith yn cwmpasu meysydd ar draws sawl portffolio gweinidogol. Oherwydd cyfyngiadau amser, nid oeddem mewn sefyllfa i gynnal sesiwn dystiolaeth lafar gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Yn hytrach, fe wnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet gyda chwestiynau ar ddyraniadau'r gyllideb sy'n dod o fewn ein cylch gwaith. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, nid y dull hwn yw'r un gorau posibl ar gyfer gwaith craffu effeithiol.

**144.** Mae'r themâu allweddol a nodwyd gennym yn ystod ein gwaith craffu ariannol wedi cynnwys:

- Sut mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â heriau cyflawni newid model tuag at ddulliau trafnidiaeth fwy cynaliadwy (yn enwedig trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol) a sicrhau gwerth am arian.
- Craffu ar fforddiadwyedd gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd, yn enwedig yn dilyn pandemig Covid-19, a cheisio sicrhau tryloywder yn y cymorth a ddarperir ar gyfer y dulliau hyn.
- Sut mae dyraniadau Llywodraeth Cymru yn ategu datgarboneiddio trafnidiaeth yn ogystal â moderneiddio fflydoedd, gan gynnwys gwerth am arian.
- Yr angen i fynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw na wnaed ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.
- Sut bydd y symudiad i Gynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a datganoli ffrydiau cyllido i lywodraeth leol sy'n gweithio'n rhanbarthol drwy Gyd-bwyllgor Corfforaethol yn cael ei reoli, gan gynnwys tryloywder ar wariant a sut bydd y cyllidebau hyn yn cael eu blaenoriaethu.
- Yr angen i gynyddu cyllid cyhoeddus a datgloi buddsoddiad preifat i fynd i'r afael â'r 'bwlch cyllido natur'.

- Sut mae'r ymateb i'r argyfwng natur yn cael ei integreiddio ar draws adrannau'r llywodraeth a sut mae bioamrywiaeth yn cael ei hymgorffori ym mhroses gyllideb Llywodraeth Cymru.
- Yr angen i gynnal a/neu gynyddu cyllid ar gyfer mentrau allweddol sy'n anelu at gynorthwyo gweithredu bioamrywiaeth, gan gynnwys Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, gan gydnabod eu bod yn darparu manteision lluosog.
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau digon o gyllid ar gyfer adfer ac adhawlio tomenni glo nas defnyddir Cymru yn y tymor hir.
- Yr angen i gynyddu buddsoddiad mewn rheoli risg llifogydd i fynd i'r afael â heriau hirdymor newid hinsawdd, ac i gynyddu buddsoddiad mewn atebion sy'n seiliedig ar natur.

**145.** Rydym wedi nodi sawl maes i'w gwella i gynorthwyo â gwaith craffu ar y gyllideb, gan gynnwys:

- diffyg tryloywder ynghylch effaith y gyllideb ddrafft ar feysydd polisi o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor;
- ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru;
- pa mor brydlon mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor.

**146.** Fe wnaethom amlygu'r materion hyn gyda'r Pwyllgor Cyllid i lywio ei waith parhaus i wella'r broses o graffu ar y gyllideb ddrafft yn barhaus.

## Craffu ariannol yn ein gwaith ehangach

**147.** Ochr yn ochr â chraffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, rydym wedi integreiddio craffu ariannol i'n gwaith ehangach, sydd wedi cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol.

### Gwella tryloywder cyllid trafnidiaeth

**148.** Mae craffu ar brosesau cyllideb Trafnidiaeth Cymru wedi cyfrannu at symudiadau i symleiddio pennu cyllideb, ac wedi arwain at fwy o dryloywder yn ystod proses craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Rydym wedi mynd i'r

afael â hyn drwy graffu ar y gyllideb ddrafft, ond hefyd drwy graffu ar Trafnidiaeth Cymru.

**149.** Er bod tryloywder a symleiddio cyllideb Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn ffocws allweddol, rydym wedi ceisio sicrhau gwell eglurder ynghylch cyllidebau ehangach, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau bysiau a theithio llesol. Yn ogystal, rydym wedi ceisio ymrwymiadau gan Lywodraeth Cymru y bydd gwybodaeth am y gyllideb a'r gwariant yn parhau'n glir yn dilyn datganoli cyllid i awdurdodau lleol drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol newydd.

## Cynnydd yn y gyllideb ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru

**150.** Ar ddechrau'r Chweched Senedd, fe wnaethom nodi disgwyliad clir mewn perthynas â chyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):

> *"Rhwng ei sefydlu yn 2013 a 2020, mae cyllid CNC wedi gostwng 35% mewn termau real. Roedd effaith hyn ar allu CNC i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau yn effeithiol yn destun pryder parhaus i'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd. Mae ein gwaith diweddar ar flaenoriaethau'r Chweched Senedd yn rhoi arwydd clir bod rhanddeiliaid o bob sector yn rhannu'r pryder hwn.*
>
> *Mae'r Chweched Senedd yn cyd-daro â chyfnod tyngedfennol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Disgwylir i Gyfoeth Naturiol Cymru fod ar flaen y gad o ran gweithredu i ymateb i'r heriau hyn. Rhaid bod ganddo adnoddau digonol i wneud hyn."*[9]

**151.** Ers hynny, rydym wedi codi pryder dro ar ôl tro ynghylch cyfyngiadau adnoddau a chapasiti o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, gan bwysleisio nad oedd ei gyllideb yn gymesur â'i swyddogaethau a'i gyfrifoldebau statudol. Rydym wedi pwyso'n gyson am newidiadau yn y ffordd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gyllido, gan dynnu sylw at y ffaith nad oedd cyllid craidd ar gyfer ei swyddogaethau sylfaenol wedi cadw ar yr un lefel â'i gyfrifoldebau cynyddol.

**152.** Yn 2025-26, cynyddodd Llywodraeth Cymru ei Grant Cymorth i Cyfoeth Naturiol Cymru i £141.4 miliwn (o £124.4 miliwn y flwyddyn flaenorol).

[9] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Newid Hinsawdd, dyddiedig 14 Rhagfyr 2021

**153.** Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru bellach ar sail ariannol fwy sefydlog, byddem yn annog ein pwyllgor olynol i barhau i graffu ar ddigonolrwydd cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y Seithfed Senedd.

### Adnoddau ychwanegol ar gyfer Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

**154.** Yn ein hadroddiad cyntaf ar weithredu'r mesurau diogelu'r amgylchedd interim (Medi 2022), fe wnaethom godi pryder bod cyfyngiadau capasiti ac adnoddau Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru wedi arwain at oedi wrth adrodd ar faterion allweddol sy'n ymwneud â gweithredu cyfraith amgylcheddol. Gan hynny, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad brys o'r adnoddau sydd ar gael i'r Asesydd Interim.

**155.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein hargymhelliad. Yn dilyn yr adolygiad, bu cynnydd yng nghyllid yr Asesydd Interim. Arweiniodd hyn at recriwtio dau Ddirprwy Asesydd, a arweiniodd maes o law at gyhoeddi adroddiadau yn fwy amserol.

## Argymhellion

**Argymhelliad 12.** Yn ogystal â chraffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, dylai ein pwyllgor olynol sicrhau bod gwaith craffu ariannol yn cael ei integreiddio i'w waith ehangach.

**Argymhelliad 13.** Dylai ein pwyllgor olynol barhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru i:

- wella'r wybodaeth a ddarperir i ategu gwaith craffu cadarn ac amserol ar gyllidebau drafft, gan gynnwys cynyddu manylder ac eglurder ar wariant a dyraniadau o fewn llinellau yn y gyllideb,
- darparu ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau'r pwyllgor mewn digon o amser er budd y dadleuon ar y gyllideb terfynol.

**Argymhelliad 14.** Mae'n bosibl y bydd ein pwyllgor olynol yn dymuno archwilio opsiynau ar gyfer cryfhau gwaith traws-bwyllgor wrth graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

# 7. Ffyrdd o weithio

## Gweithgarwch ymgysylltu

**156.** Mae gwaith craffu effeithiol yn dibynnu ar sylfaen dystiolaeth eang ac amrywiol. Rydym wedi chwilio am gyfleoedd i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion a chynrychiolwyr cymunedol yn ein hymchwiliadau, drwy lwybrau ffurfiol ac anffurfiol. Mae rhestr o weithgarwch ymgysylltu i'w gweld yn Atodiad 5.

### Digwyddiadau ymgysylltu allanol

**157.** Credwn fod gweithgareddau ymgysylltu allanol, gan gynnwys ymweliadau a digwyddiadau, ymhlith elfennau mwyaf gwerthfawr gwaith pwyllgor. Mae gweithgareddau o'r fath yn darparu cyd-destun pwysig na ellir ei gael drwy gasglu tystiolaeth drwy ddulliau traddodiadol, a gallant effeithio'n sylweddol ar feddwl ynghylch polisi a deddfwriaeth.

**158.** Roedd ein hymweliad â Transport for Greater Manchester yn amhrisiadwy o ran deall yr ystyriaethau ymarferol ynghylch masnachfraint bysiau cyn i ni graffu ar Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Yn yr un modd, roedd ein hymweliad â mwynglawdd glo brig Ffos-y-frân yn fodd i ni gael dealltwriaeth lawn o'r materion a archwiliwyd yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys hanes y safle, y gwaith a wnaed gan berchnogion safle olynol, a datblygu cynigion ar gyfer cynllun adfer diwygiedig.

**159.** Rydym o'r farn bod ein gweithgareddau ymgysylltu wedi bod yn adeiladol, yn bwrpasol ac o werth pendant i'n gwaith craffu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod lle o hyd i welliant pellach. Mae'n bosibl y bydd ein pwyllgor olynol yn dymuno archwilio ffyrdd o ehangu ac arallgyfeirio ymgysylltu â dinasyddion, a chryfhau ei safbwyntiau allanol drwy ymweliadau, yn enwedig yn gynnar yn y Seithfed Senedd. Wrth gynnal ymweliadau, mae'n bosibl y bydd y pwyllgor yn dymuno gwahodd partneriaid/rhanddeiliaid allanol, yn ôl yr angen.

### Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil

**160.** Ym mis Medi 2022, y ni oedd y pwyllgor cyntaf yn y Senedd, ac mewn deddfwrfeydd datganoledig ledled y Deyrnas Unedig, i lansio Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil fel ffordd newydd o wella ymgysylltiad pwyllgorau â'r gymuned ymchwil, ac arallgyfeirio'r dystiolaeth y mae'n ei chael.

**161.** Rhwng 2022 a diwedd y Senedd, fe wnaethom edrych ar gyfanswm o bedwar Maes Diddordeb Ymchwil:

- Cymunedau cynaliadwy;
- Newid moddol a theithio llesol;
- Newid ymddygiad mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd; a
- Llywodraethu amgylcheddol, egwyddorion a thargedau bioamrywiaeth.

**162.** Ceir rhagor o wybodaeth yn **Atodiad 6**.

**163.** Ar draws yr holl feysydd o ddiddordeb ymchwil, roedd y mewnbwn a gafwyd gan y gymuned ymchwil yn amrywio tystiolaeth a ddaeth i law y tu hwnt i'r 'rhai arferol', yn helpu i lenwi bylchau gwybodaeth a siapio meddwl ac yn ffordd o ddod i adnabod tystion tystiolaeth ysgrifenedig a llafar. Profodd y meysydd o ddiddordeb ymchwil yn fecanwaith effeithiol o gael mynediad at arbenigedd academaidd. Fe allai ein pwyllgor olynol ddymuno ystyried rhinweddau defnyddio mecanweithiau fel meysydd o ddiddordeb ymchwil ar ddechrau'r Seithfed Senedd wrth ystyried ei flaenoriaethau a datblygu ei raglen waith.

## Gweithio traws-Seneddol

**164.** Drwy gydol tymor y Senedd hon, rydym wedi ceisio cyfleoedd ar gyfer cydweithio â phwyllgorau eraill y Senedd, yn enwedig ar faterion trawsbynciol lle byddai hyn yn gwella effeithiolrwydd gwaith craffu. Fodd bynnag, mae pwysau llwyth gwaith sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, ynghyd â chyfyngiadau amserlennu a chyfyngiadau ar gapasiti Aelodau, wedi cyfyngu ar y graddau mae cydweithio wedi bod yn bosibl.

**165.** Wrth edrych ymlaen at y Seithfed Senedd, gallai dull mwy hyblyg o drefnu cyfarfodydd pwyllgorau, ynghyd â chynyddu capasiti Aelodau (er enghraifft, Aelodau yn gwasanaethu ar lai o bwyllgorau), ddarparu mwy o sgôp ar gyfer cydweithio. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfle pellach i gydweithio, yn enwedig ar faterion newid hinsawdd.

**166.** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Pwyllgor Deisebau ac o'r farn y gallai cydgysylltu cryfach rhyngddo a phwyllgorau polisi helpu i lywio rhaglenni gwaith yn y dyfodol a bod o gymorth wrth nodi materion sy'n dod i'r amlwg yn gynnar.

## Cymorth ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy

**167.** Wrth bennu ei flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, fe wnaethom gytuno i archwilio cyfleoedd i ystyried y darpariaethau yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a oedd yn berthnasol i'w gylch gwaith, gan gydnabod rôl allweddol rheoli tir yn gynaliadwy wrth gyflawni ymrwymiadau newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

**168.** Cyfeiriwyd y Bil at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gyfer gwaith craffu. Yn dilyn cytundeb rhwng Cadeiryddion y Pwyllgorau, cymerodd Aelodau'r Pwyllgor hwn ran yn sesiynau tystiolaeth Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i lywio gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil.

**169.** Wedi hynny, craffodd y Pwyllgor hwn a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar yr un pryd. Fe wnaethom wahodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i'n digwyddiad i randdeiliaid, lle'r oedd cynrychiolwyr o'r sectorau amaeth, bwyd a'r amgylchedd yn bresennol.

**170.** Ym mis Hydref 2024, cynhaliwyd dadl ar y cyd ar adroddiadau ein pwyllgorau.

## Adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd

**171.** Roeddem yn un o bedwar pwyllgor[10] i gynnal ymchwiliad ar y cyd i ystyried effeithiolrwydd Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yng nghyd-destun Cymru cyn yr adolygiad gweithredu arfaethedig.

**172.** Roedd yr ymchwiliad yn cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd polisi, ond roedd y themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys sut mae lleisiau'r cenhedloedd datganoledig yn cael eu cynrychioli a'u deall mewn cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd a phwysigrwydd gweithio rhynglywodraethol effeithiol.

**173.** Yr adroddiad ar y cyd (Medi 2025) oedd y cyntaf o'i fath yn y Senedd.

[10] Y Pwyllgorau eraill a oedd yn rhan o'r gwaith hwn oedd: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chwaraeon; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

## Y berthynas â phwyllgorau seneddol eraill

**174.** Rydym yn cydnabod gwerth perthynas waith gref â chymheiriaid mewn seneddau eraill. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i ddatblygu a chryfhau cysylltiadau presennol ymhellach a cheisio cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin.

### Y Pwyllgor Materion Cymreig

**175.** Yn gynnar yn y Chweched Senedd, cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor yn anffurfiol ag Aelodau o Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin i drafod rhaglenni gwaith yn y dyfodol a meysydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

**176.** Fe wnaethom rannu ein hadroddiad ar Ynni adnewyddadwy yng Nghymru (Mai 2022) gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig i helpu i lywio ei ymchwiliad i gapasiti'r grid yng Nghymru.

**177.** Ym mis Gorffennaf 2023, bu Cadeirydd y Pwyllgor yn westai yn sesiwn untro'r Pwyllgor Materion Cymreig gyda Trafnidiaeth Cymru ar Metro De Cymru a rhwydwaith rheilffyrdd ehangach Cymru, yn ogystal â chynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer masnachfreinio bysiau.

### Ymweliad traws-bwyllgor â'r Oireachtas

**178.** Ym mis Medi 2024, bu Aelodau'r Pwyllgor ar ymweliad traws-bwyllgor â Dulyn i gyfarfod â chymheiriaid yn yr Oireachtas. Pwrpas yr ymweliad oedd rhannu arfer da a thrafod meysydd o ddiddordeb cyffredin.

**179.** Mater nodedig a gododd o'r drafodaeth oedd dull traws-bwyllgor yr Oireachtas o graffu ar Gynllun Gweithredu ar yr Hinsawdd Llywodraeth Iwerddon. Rydym o'r farn y byddai rhinwedd mewn archwilio a allai dull tebyg gryfhau goruchwyliaeth o gynllun lleihau allyriadau carbon Llywodraeth Cymru. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i fyfyrio ar hyn.

## Senedd sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd

**180.** Ar 3 Mawrth 2026, cyhoeddodd y Bwrdd Adolygu Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ei adroddiad, Senedd i bawb. Nodwn fod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i Gomisiwn y Senedd i'w ystyried ac ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i fyfyrio ar yr adroddiad a'r argymhellion perthnasol wrth gytuno ar ei ffyrdd o weithio.

## Argymhellion

**Argymhelliad 15.** Dylai ein pwyllgor olynol chwilio am gyfleoedd i:

- ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu i sicrhau bod ystod eang ac amrywiol o safbwyntiau yn llywio ei waith, a hefyd
- cryfhau ei safbwynt allanol drwy ymweliadau, o fewn y capasiti a'r adnoddau sydd ar gael.

**Argymhelliad 16.** Fe allai ein pwyllgor olynol ddymuno ystyried defnyddio mecanweithiau fel Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil i gael mynediad at arbenigedd academaidd, gan gynnwys ar ddechrau'r Seithfed Senedd wrth ystyried ei flaenoriaethau a datblygu ei raglen waith.

**Argymhelliad 17.** Dylai ein pwyllgor olynol barhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithio â phwyllgorau eraill y Senedd, yn enwedig ar faterion trawsbynciol lle byddai hyn yn gwella effeithiolrwydd craffu - er enghraifft, newid yn yr hinsawdd.

**Argymhelliad 18.** Dylai ein pwyllgor olynol ddatblygu a chryfhau ymhellach y cysylltiadau presennol â phwyllgorau seneddol cyfatebol ledled y Deyrnas Unedig a cheisio cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin.

**Argymhelliad 19.** Dylai ein pwyllgor olynol fyfyrio ar adroddiad ac argymhellion perthnasol y Bwrdd Adolygu Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd wrth gytuno ar ei ffyrdd o weithio.

# Atodiad 1: Sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **14 Ionawr 2026** | **Nilesh Sachdev**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**Ceri Davies**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**Rachael Cunningham**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **21 Ionawr 2026** | **Dr David Clubb**<br>Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru<br>**Dr Jenifer Baxter**<br>Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru<br>**Helen Armstrong**<br>Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru |
| **29 Ionawr 2026** | **Vernon Everitt**<br>Trafnidiaeth Cymru<br>**James Price**<br>Trafnidiaeth Cymru<br>**Heather Clash**<br>Trafnidiaeth Cymru |
| **11 Chwefror 2026** | **Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Claire Bennett**<br>Llywodraeth Cymru |
| **25 Chwefror 2026** | **Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Peter McDonald**<br>Llywodraeth Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Alex Walters**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Alison Thomas**<br>Llywodraeth Cymru |
| **5 Mawrth 2026** | **Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Neil Hemington**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Ed Sheriff**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Ymchwiliadau polisi

Mae'r tabl isod yn rhestru'r ymchwiliadau polisi/sesiynau untro a gynhaliwyd gennym yn ystod y Chweched Senedd.

| Ymchwiliad | Dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd | Ionawr 2022 |
| Rheoli'r amgylchedd morol | Mai 2022 |
| Ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion | Mehefin 2022 |
| Ynni adnewyddadwy yng Nghymru | Hydref 2022 |
| Cysylltedd digidol - band eang | Tachwedd 2022 |
| Teithio ar fysiau a'r rheilffordd yng Nghymru | Ionawr 2023 |
| Datgarboneiddio'r sector tai preifat | Mai 2023 |
| Datgarboneiddio'r diwydiant dur | Mai 2023 |
| Gwefru cerbydau trydan | Mehefin 2023 |
| Perfformiad Dŵr Cymru | Mawrth 2024 |
| Cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy | Gorffennaf 2024 |
| Adfer safleoedd glo brig | Awst 2024 |
| Ymchwiliad i wastraff | Medi 2024 |
| Atal a gwrthdroi colli natur | Ionawr 2025 |
| Ymateb i stormydd | Medi 2025 |
| Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd | Medi 2025 |

# Atodiad 3: Craffu ar Filiau

Mae'r tabl isod yn rhestru'r Biliau y buom yn craffu arnynt yn ystod y Chweched Senedd.

| **Bil** | **Dyddiad cwblhau** |
|---|---|
| Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) | Mehefin 2023 |
| Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) | Rhagfyr 2023 |
| Y Bil Seilwaith (Cymru) | Rhagfyr 2023 |
| Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) | Ebrill 2025 |
| Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) | Medi 2025 |
| Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) | Hydref 2025 |

# Atodiad 4: Craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Isod mae rhestr o'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a graffwyd gennym yn ystod y Chweched Senedd.

**Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.**

- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil yr Amgylchedd
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Banc Seilwaith y Deyrnas Unedig
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Bil Banc Seilwaith y Deyrnas Unedig (Memorandwm Rhif 2)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Bil Banc Seilwaith y Deyrnas Unedig (Memorandwm Rhif 3)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio (Memorandwm Rhif 2)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio (Memorandwm Rhif 3)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio (Memorandwm Rhif 4)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig (Memorandwm Rhif 2)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Ynni Prydain Fawr

- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) (Memorandwm Rhif 2)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) (Memorandwm Rhif 3)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) (Memorandwm Rhif 4)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Bil Ynni Prydain Fawr (Memorandwm Rhif 2)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Data (Defnydd a Mynediad)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cynllunio a Seilwaith
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Cynllunio a Seilwaith (Memorandwm Rhif 2)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Cynllunio a Seilwaith (Memorandwm Rhif 3)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Cynllunio a Seilwaith (Memorandwm Rhif 4)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy (Memorandwm Rhif 2)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy (Memorandwm Rhif 3)

- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Seiberddiogelwch a Seiberwydnwch (Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheilffyrdd
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Rheilffyrdd (Memorandwm Rhif 2)

# Atodiad 5: Gweithgareddau ymgysylltu

Mae'r tabl isod yn rhestru'r gweithgareddau ymgysylltu y gwnaethom eu cynnal yn ystod y Chweched Senedd.

| Ymchwiliad | Math o ymgysylltu | Manylion y gweithgaredd |
|---|---|---|
| Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy | Digwyddiad i randdeiliaid | Ar 13 Mawrth 2024, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad i randdeiliaid lle'r oedd cynrychiolwyr o'r sectorau amaethyddiaeth, bwyd a'r amgylchedd yn bresennol. Cymerodd Luke Fletcher AS a Sam Kurtz AS ran yn y digwyddiad fel aelodau o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. |
| Teithio ar fysiau a'r rheilffordd yng Nghymru | Digwyddiad i randdeiliaid | Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad i randdeiliaid ym mis Mawrth 2022. Nod y sesiwn oedd deall barn rhanddeiliaid ar effeithiolrwydd gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd, eu pwrpas yn y dyfodol, pethau sy'n rhwystro'r cyhoedd wrth eu defnyddio, a safbwyntiau ar effeithiolrwydd polisi Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd 20 o randdeiliaid yn cwmpasu sawl maes diddordeb yn bresennol, gan gynnwys grwpiau cynrychiolwyr teithwyr o bob cwr o Gymru. |
| Teithio ar fysiau a'r rheilffordd yng Nghymru | Grwpiau ffocws a chyfweliadau | Comisiynodd y Pwyllgor Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd i gynnal cyfres o grwpiau ffocws a chyfweliadau â theithwyr. Cafwyd cyfranogwyr drwy Aelodau'r Pwyllgor, grwpiau cymunedol, a sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau teithwyr.<br><br>Cynhaliwyd cyfres o bum grŵp ffocws a chwe chyfweliad un-i-un rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2021. |
| Datgarboneiddio'r sector tai preifat | Cyfweliadau | Fe wnaeth y Pwyllgor gomisiynu Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Senedd Cymru i gynnal cyfweliadau â landlordiaid preifat a pherchnogion tai. |
| Ymateb i stormydd | Cyfweliadau | Ym mis Mawrth 2025, cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd raglen ymgysylltu i glywed profiadau unigolion yn y |

| Ymchwiliad | Math o ymgysylltu | Manylion y gweithgaredd |
|---|---|---|
| | | cymunedau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan stormydd Bert a Darragh. |
| Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) | Arolwg ar-lein | Cynhaliodd y Pwyllgor arolwg cyhoeddus ar-lein, a oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaethau mewn perthynas â chodi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd, ond gwahoddodd sylwadau ar bob agwedd ar y Bil.<br>Cafodd yr ymchwiliad 2239 o ymatebion. |
| Adfer safleoedd glo brig | Ymweliad gan y Pwyllgor | Ymwelodd y Pwyllgor â mwynglawdd glo brig Ffos-y-frân ar 7 Tachwedd 2024 i gael dealltwriaeth lawnach o'r materion a archwiliwyd yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys hanes y safle, y gwaith a wnaed gan Merthyr (South Wales) Limited a'i gwmnïau blaenorol, a datblygu cynigion ar gyfer cynllun adfer diwygiedig. |
| Craffu parhaus ar bolisi trafnidiaeth | Ymweliad gan y Pwyllgor | Ym mis Tachwedd 2024, ymwelodd y Pwyllgor â Chanolfan Rheoli Seilwaith a Depo Metro Trafnidiaeth Cymru yn Ffynnon Taf. Cyfrannodd y trafodaethau hyn at waith craffu'r Pwyllgor ar waith Llywodraeth Cymru ar drafnidiaeth yng Nghymru. |
| Craffu parhaus ar bolisi trafnidiaeth a chraffu ar Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) | Ymweliad gan y Pwyllgor | Ym mis Ebrill 2025, ymwelodd y Pwyllgor â Transport for Greater Manchester i gael cipolwg ar yr heriau sy'n gysylltiedig â masnachfreinio bysiau a darparu system drafnidiaeth integredig ym Manceinion Fwyaf. |
| Craffu parhaus ar weithredu ar yr hinsawdd | Ymweliad gan y Pwyllgor | Yn 2024, cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. Fel rhan o'r gwaith hwn, ym mis Medi 2024, ymwelodd dirprwyaeth draws-bwyllgor â Dulyn.<br>Pwrpas yr ymweliad oedd archwilio meysydd cydweithredu allweddol a nodir yn Natganiad ar y cyd Iwerddon-Cymru a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021-25, gan gynnwys diwylliant, iaith a threftadaeth, hinsawdd a chynaliadwyedd, a masnach. |

# Atodiad 6: Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil

Deilliodd yr ysgogiad ar gyfer y rhaglen Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil o Adolygiad 2021 yr Athro Diana Stirbu o effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd, a ddaeth i'r casgliad bod cael tystiolaeth fwy amrywiol gan amrywiaeth ehangach o bobl yn flaenoriaeth allweddol i Aelodau a phwyllgorau. Argymhellodd y dylai pwyllgorau gael eu harwain gan dystiolaeth, yn ogystal â bod yn uchelgeisiol a chreadigol wrth estyn allan i gynulleidfaoedd newydd.

Roedd gwaith y Pwyllgor ar Feysydd o Ddiddordeb Ymchwil yn adeiladu ar brofiad pwyllgorau Senedd y Deyrnas Unedig. Y nod oedd nodi meysydd diddordeb tymor canolig a hirdymor i'r pwyllgor nad oeddent o bosibl ar yr agenda uniongyrchol, a oedd yn llenwi bylchau mewn tystiolaeth a gwybodaeth, ac yn agor y drws ar gyfer ffynonellau newydd ac amrywiol o dystiolaeth ac arbenigedd i gyfrannu at y broses graffu, ar gyfer gwaith polisi a deddfwriaethol.

Rhwng 2022 a diwedd y Senedd, cynhaliodd y Pwyllgor gyfanswm o bedwar Maes Diddordeb Ymchwil:

- Cymunedau cynaliadwy;
- Newid moddol a theithio llesol;
- Newid ymddygiad mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd; a
- Llywodraethu amgylcheddol, egwyddorion a thargedau bioamrywiaeth.

Cafodd y tri Maes Diddordeb Ymchwil cyntaf (a gynhaliwyd ar y cyd) gyfanswm o 134 ymateb gan academyddion ledled y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Cafodd y pedwerydd 14 ymateb. Yn nodedig, nid oedd tua 65% o'r ymatebwyr i'r Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil erioed wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen.

Defnyddiwyd y Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil i gynorthwyo gwaith y Pwyllgor mewn gwahanol ffyrdd.

Y Maes Diddordeb Ymchwil ar lywodraethu amgylcheddol, egwyddorion a thargedau bioamrywiaeth oedd yr enghraifft gyntaf o'r Senedd yn defnyddio Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil i daflu rhwyd ehangach i chwilio am arbenigedd er mwyn cynorthwyo ei waith ar ddeddfwriaeth, yn benodol Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Cafwyd cyflwyniadau i'r Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil gan academyddion ledled y Deyrnas Unedig, a gwahoddwyd pob un ohonynt i ddarparu tystiolaeth

ysgrifenedig i ymgynghoriad y Pwyllgor i lywio gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil. Gwahoddwyd un ymatebydd wedi hynny i roi tystiolaeth lafar.

Roedd gan y tri Maes Diddordeb Ymchwil arall ddiben ehangach: rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ymchwil academaidd gyfoes yn y tri maes polisi er mwyn helpu i lunio gwaith yn y dyfodol. Ym mis Tachwedd 2023, gwahoddodd y Pwyllgor 14 o academyddion o bob cwr o Gymru a'r Deyrnas Unedig i'r Senedd ar gyfer cynhadledd undydd fach fel cyfle i rannu a thrafod eu hymchwil. Roedd y rhai eraill a oedd yn bresennol yn cynnwys staff Aelodau ac aelodau o grwpiau trawsbleidiol.